



Adroddiad Blynyddol y Portffolio **2022-23**



BDBA@sirgar.gov.uk



[@SBCityDeal](https://twitter.com/SBCityDeal)



bargenddinesigbaeabertawe.cymru



Crynodeb Gweithredol



£1.26bn

£235.8m Y Fargen Ddinesig

£382.2m Sector Cyhoeddus

£638.7m Sector Preifat

Creu ein dyfodol gyda'n gilydd

Croeso i drydydd Adroddiad Blynyddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe (SBCD) sy'n rhoi crynodeb o fuddsoddiad unigryw gwerth £1.2 biliwn ar draws portffolio rhanbarthol yn cynnwys naw prif raglen a phrosiect.

Mae cyfanswm o 35 prosiect unigol ledled Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe yn rhan o'r Fargen Ddinesig.

Bydd y Portffolio uchelgeisiol yn darparu rhai buddion allweddol i'r rhanbarth dros ei gylch bywyd 15 mlynedd trwy::

- Creu dros 9,000 o swyddi mewn meysydd gan gynnwys ynni, gweithgynhyrchu, digidol, iechyd a llesiant, ymchwil a datblygu, addysg, manwerthu, hamdden a thwristiaeth.
- Helpu 14,000 o bobl i wella eu sgiliau, trwy 2,200 o gyfleoedd hyfforddi a thros 3,000 o brentisiaethau newydd.
- Cyfrannu £1.8-2.4 biliwn o Werth Ychwanegol Gros rhanbarthol (GVA).
- Trawsnewid De-orllewin Cymru yn lle sy'n rhoi cyfle i bawb, lle gall pobl fyw a gweithio, cael addysg, swyddi a gofal iechyd o safon a lle gall busnesau ffynnu.

Yn unol â thair thema cyflymu economaidd, ynni a gweithgynhyrchu clyfar, a gwyddor bywyd a llesiant, cymeradwywyd pob un o'r naw achos busnes gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, sy'n golygu bod y portffolio cyfan bellach yn cael ei ddarparu'n llawn.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu uchelgais Bargen Ddinesig Bae Abertawe ac yn crynhoi'r cerrig milltir allweddol dros y 12 mis diwethaf (Ebrill 2022 – Mawrth 2023). Mae'n darparu crynodebau cyfoes a statws pob prosiect a rhaglen, yn ogystal â chynnwys astudiaethau achos o gyflawniadau allweddol, y buddion a'r effaith a gyflawnir hyd yma, gweithgaredd cyfathrebu a marchnata, ymgysylltu â busnesau a chrynodeb ariannol.

Yn ogystal, mae'r adroddiad yn amlinellu rhai o'r gweithgareddau allweddol y disgwyliwn eu gweld yn cael eu cyflawni yn y flwyddyn ariannol rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024.

Bydd y portffolio yn darparu:

£1.8-2.4bn Gwerth Gros Ychwanegol

9,000+ Swyddi a Grewyd


Prif randdeiliaid Bargen Ddinesig Bae Abertawe yw:



Themâu'r portffolio



Mae'r rhaglenni a'r prosiectau o fewn y Portffolio yn ymdrin â thair thema:



Cyflymu'r Economi

Darparu'r lle, y sgiliau a'r cysylltedd i yrru'r economi ranbarthol ymlaen i ddarparu cyfleoedd newydd i'n busnesau a'n cymunedau ffynnu.

£296.3m Buddsoddiad

Gwerth Gros ychwanegol o **£1.08bn**

1,708 o swyddi newydd




Gwyddor bywyd a llesiant

Darparu datblygiadau integredig a fydd yn cyfuno cyfleusterau arloesi, ymchwil a dysgu arloesol thwf busnesau newydd a darparu gwasanaethau'n drawsnewidiol o fewn meysydd gwyddorau bywyd, iechyd, llesiant a chwaraeon

£331.4m Buddsoddiad

Gwerth Gros ychwanegol o **£617m**

2,973 o swyddi newydd



Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar

Rhoi'r rhanbarth ar flaen y gad o ran arloesi ym maes ynni a gweithgynhyrchu fel rhan o'r ymgyrch tuag at economi carbon isel a chryfhau'r sylfaen weithgynhyrchu bresennol.

£628.9m Buddsoddiad

Gwerth Gros ychwanegol o **£687m**

5,005 o swyddi newydd



Y Cynghorydd Rob Stewart

Arweinydd Cyngor Abertawe
a Chadeirydd Cyd-bwyllgor
Bargen Ddinesig Bae Abertawe



Eleni gwelwyd cynnydd sylweddol pellach drwy gydol y gwaith o gyflawni'r portffolio, twf parhaus a buddsoddiad ar draws ein rhanbarth, adferiad economaidd parhaus a chyflawni cerrig milltir allweddol pellach.

Rydym wedi parhau i adeiladu llwyddiant drwy ein gwaith cydweithredol, gyda'r pedwar awdurdod lleol, dau fwrdd iechyd a dwy brifysgol, a busnesau rhanbarthol yn cefnogi ei gilydd er mwyn i'n heconomi dyfu, ac rydym wedi gweld trawsnewidiad pellach ledled De-orllewin Cymru gyda llawer o brosiectau'n rhagori o ran cael eu darparu.

Yn ategu uchelgais y rhanbarthau ac amcanion buddsoddi'r Fargen Ddinesig, mae llawer o fentrau rhanbarthol eraill yn dwyn ffrwyth. Mae'r rhain yn cynnwys sawl corff ariannu Ffyniant Bro, cais llwyddiannus y Porthladd Rhydd Celtaidd, gan sicrhau ymrwymiad gan Skyline, Prosiect Eden Las a Chanolfan fyd-eang rhagoriaeth rheilffyrdd yng Nghymru.

Edrychaf ymlaen at 12 mis cyffrous arall ar gyfer Bargen Ddinesig Bae Abertawe ac rwy'n teimlo'n freintiedig o fod yn rhan o'r daith wych sy'n siapia ein rhanbarth er gwell.



Wendy Walters

Prif Weithredwr Cyngor Sir
Caerfyrddin ac Uwchberchennog
Cyfrifol Bargen Ddinesig
Bae Abertawe



Fel Uwch-berchennog Cyfrifol Bargen Ddinesig Bae Abertawe, rwy'n falch iawn o'r cynnydd sydd wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf. Mae'r portffolio wedi dathlu ei fod wedi'i gyflawni'n llawn ar ôl sicrhau'r holl gyllid gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ôl ar ddiwedd 2021.

Rydym wedi parhau i ymdrechu i greu swyddi, gwireddu dyheadau a thrawsnewid ein rhanbarth i'r lle perffaith i weithio a byw. Mae Arena Abertawe wedi bod ar agor am flwyddyn gyfan, gan groesawu dros 240,000 o ymwelwyr ac mae Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe hefyd wedi croesawu ei thenantiaid cyntaf. Rydym wedi gweld Pentre Awel arloesol, Matrics Arloesi ac elfennau o brosiect Ardal Forol Doc Penfro, yn ogystal â gwaith adeiladu sylweddol ar Ffordd y Brenin. Mae'r tri phrosiect rhanbarthol hefyd yn datblygu'n dda ac mae pob un ohonynt yn dechrau cael effaith ar ein rhanbarth.

Rydym yn parhau i ddilyn trefniadau llywodraethu cadarn ac mae ein proses fonitro ac adrodd yn sicrhau bod pawb yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf. Rydym yn gweithio'n galed i adeiladu ar lwyddiant y 12 mis diwethaf a symud ymlaen gyda'n hymrwymiad i wella economi De-orllewin Cymru, gan greu dyfodol llewyrchus ar gyfer cenedlaethau i ddod.



Jonathan Burnes

Cyfarwyddwr Portffolio
Bargen Ddinesig
Bae Abertawe



Mae gwaith ymroddedig a chaled ein partneriaid rhanbarthol yn dechrau talu ar ei ganfed. Mae 2022-23 wedi bod yn llwyddiannus iawn. Rydym wedi gweld cyfres o geisiadau cynllunio yn cael eu dyfarnu, cychwyn y gwaith tir ar safleoedd allweddol ar draws y rhanbarth, tendrau'n cael eu datblygu, a chontractwyr yn cael eu penodi i fentrau blaenllaw, contractau'n cael eu dyfarnu i'r gadwyn gyflenwi leol, a phartneru rhwng darparwyr diwydiant a hyfforddiant i gynnig cyfleoedd i bobl ifanc ennill sgiliau gwerthfawr sy'n eu galluogi nhw i ddod yn rhan o'n gweithlu yn y dyfodol.

Adlewyrchir y momentwm o ran y ddarpariaeth yn ein gweithgarwch marchnata, cyfathrebu ac ymgysylltu â busnes cynyddol. Ond nid yw'r holl bositifrydd hyn yn golygu bod ein gwaith wedi ei wneud. Byddwn yn parhau i wella a gwthio i wireddu ein huchelgeisiau rhanbarthol. Gan ddenu contractwyr pellach ar gyfer dylunio ac adeiladu seilwaith, partneru â gweithredwyr i reoli'r cyfleusterau, datblygu partneriaethau a chydweithrediadau ar gyfer ymchwil a datblygu, mentrau arloesi a datblygu sgiliau, gweithio gyda busnesau, tenantiaid a phartneriaid i sicrhau ein bod yn diwallu eu hanghenion ar unwaith ac o ran twf ac yn bwysicaf oll yn dweud wrthyf am y cyfleoedd anhygoel sydd gennym i'w cynnig yn y rhanbarth a chyda buddsoddwyr a chydweithredwyr ehangach.

Bydd Swyddfa Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn parhau i gynnig gwasanaeth proffesiynol sy'n cefnogi partneriaid rhanbarthol a'r ddwy Lywodraeth i ddarparu buddion allweddol sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl a busnesau.



Chris Foxall

Cadeirydd Bwrdd
Strategaeth Economaidd
Bargen Ddinesig
Bae Abertawe



Mae'r Bwrdd Strategaeth Economaidd wedi bod yn rhan o flwyddyn brysur arall eto gan gefnogi, ehangu a chynghori'r Fargen Ddinesig gyda'r cyfle unwaith mewn cenedlaeth hwn i drawsnewid De-orllewin Cymru.

Rydym wedi cwrdd â sawl prosiect wyneb yn wyneb ac ar-lein dros y 12 mis diwethaf, gan ddefnyddio profiadau ein bwrdd mewn sectorau gan gynnwys Tai, Cyllid, Ynni, Gofal Iechyd, Gweithgynhyrchu a'r economi hydrogen. Rydym wedi darparu cyngor, arweiniad a chysylltiadau pwysig rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Yn benodol, gwnaethom ddarparu cyngor i'r tîm Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer ar greu cartrefi ynni-effeithlon. Amlinellodd Seilwaith Digidol gynnydd y prosiect a chyfleoedd i fusnesau ledled y rhanbarth lle'r oeddem yn gallu gweld yn uniongyrchol rywfaint o'r gwaith pwysig a oedd yn cael ei wneud mewn partneriaeth â Sefydliadau'r Sector Preifat. Dysgom fwy am y baromedr bylchau sgiliau Sgiliau a Thalent a'r prosiect pilot Dynodi Ynni Adnewyddadwy.

Yn olaf, gwnaethom ymweld â phrosiect Ardal Forol Doc Penfro i gael diweddariad a thaith i weld y cynnydd a'r cyfleoedd helaeth sy'n gysylltiedig â Phorthladd Aberdaugleddau. Dylai Ardal Forol Doc Penfro helpu i sicrhau mwy o gyfleoedd o botensial enfawr ynni gwynt arnofiol alltraeth yn y môr Celtaidd. Byddwn yn parhau â'n rôl ymgynghorol dros y 12 mis nesaf ac edrychwn ymlaen at weld cynnydd pellach wrth i'r prosiectau symud ymlaen i'r cam cyflawni a gweithredu, a fydd yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fusnesau o bob maint ar draws y rhanbarth.



Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer (HAPS)



£505.5m Buddsoddiad
£15.0m Y Fargen Ddinesig
£114.6m Sector Cyhoeddus
£375.9m Sector Preifat

Mae hwn yn brosiect arloesol a fydd yn hwyluso mabwysiadu technolegau dylunio ac adnewyddadwy sy'n effeithlon o ran ynni i gartrefi ar draws y rhanbarth – gan helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, lleihau allyriadau carbon rhanbarthol a chefnogi twf economaidd lleol.

Bydd cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau adeiladu newydd ac ôl-ffitio cartrefi sy'n bodoli eisoes yn galluogi rhaglen o fonitro a chasglu data cynhwysfawr. Bydd cymorth ariannol i ddatblygu technolegau adnewyddadwy yn y rhanbarth yn sicrhau bod cadwyn gyflenwi leol gynaliadwy.



£251m
Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

1,804
Swyddi a Grewyd

10,300 Cartrefi Newydd a Phresennol wedi'u Gosod gyda Technolegau Adnewyddadwy

10,417+ KWh
Arbed Ynni

19,000+ Tunelli o ostyngiadau CO₂ y flwyddyn

Diweddariadau Allweddol:

Chwarter 1

- Sefydlu trefniadau llywodraethu, gan gynnwys Bwrdd Prosiect Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer.
- Ffurfioli cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid a chreu cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni prosiectau.

Chwarter 2

- Cytundeb Cyllido Sylfaenol wedi'i greu rhwng y Corff Atebol a Chyngor Castell-nedd Port Talbot.
- Adolygiad Gateway Sicrwydd wedi'i gynnal gyda sgôr Ambr/Coch.
- Contract Monitro a Gwerthuso wedi'i hysbysebu ar Gwerthwch i Gymru.

Chwarter 3

- Cynllun Gweithredu Sicrwydd Gateway yn cael ei roi ar waith.
- Penodwyd Richard Lewis yn Gydgysylltydd Technegol.
- Dyfarnu'r contract Monitro a Gwerthuso i Brifysgol Caerdydd.
- Contractio Opus i gefnogi gyda gwaith Cadwyn Gyflenwi.

Chwarter 4

- Digwyddiad Cadwyn Gyflenwi wedi'i gynnal ym Mharc y Scarlets a ddaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phobl ddylanwadol o'r pedwar Awdurdod Lleol at ei gilydd.
- Parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio ac ECO 4 Flex.
- £75,000 o gyllid wedi'i sicrhau gan y Cynllun Ardystio Microgynhyrchu (MCD) i gefnogi datblygu sgiliau gyda thechnolegau Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer cysylltiedig.
- Cwblhaodd Opus y gwaith ymgynghori Mapio Cadwyn Gyflenwi.
- Cadarnhau buddsoddiad cyhoeddus o £41m a buddsoddiad preifat o £1.4m ar gyfer 2022-23 drwy 187 o gartrefi newydd a 6 cartref ôl-osod.
- Gwaith paratoi pellach ar gyfer lansio'r Gronfa Cadwyn Gyflenwi a'r Gronfa Cymhellion Ariannol.



Sgiliau a Thalentau



£30.5m Buddsoddiad
£10.0m Y Fargen Ddinesig
£16.0m Sector Cyhoeddus
£4.5m Sector Preifat

Gan ganolbwyntio'n benodol ar feysydd twf yn y sectorau digidol, adeiladu, ynni, gweithgynhyrchu clyfar ac iechyd a llesiant, bydd y rhaglen yn darparu 2,200 o gyfleoedd sgiliau a datblygu ychwanegol, 14,000 o unigolion â sgiliau uwch ac o leiaf 3,000 o brentisiaethau newydd - a fydd yn cefnogi busnesau drwy ganiatáu iddynt dyfu a diogelu at y dyfodol drwy ddatblygu gweithlu talentog.

Drwy weithio ochr yn ochr â phartneriaid o'r sector preifat, addysg uwch ac addysg bellach, ysgolion a'r trydydd sector, bydd tîm y rhaglen yn nodi o bryd i'w gilydd fylchau yn y ddarpariaeth bresennol ac yn pennu'r newidiadau sydd eu hangen i ddatblygu cyrsiau a fframweithiau newydd i fodloni'r bylchau hyn o ran sgiliau. Mae prosiectau pilot yn cael eu datblygu a'u lleoli sy'n cyd-fynd ag anghenion diwydiant a themâu allweddol y Fargen Ddinesig.

2,200
Sgiliau Ychwanegol

14,000
Pobl wedi'u Uwchsgilio

3,000 Cyfleoedd Prentisiaeth Newydd

20 Cyrsiau a Fframweithiau Newydd

2+ Canolfannau Rhagoriaeth a Ddatblygwyd

Diweddariadau Allweddol:

Chwarter 1

- Cymeradwyo'r prosiect pilot cyntaf gan y Bartneriaeth Sgiliau a Dysgu Rhanbarthol (RSLP). Bydd Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy, mewn partneriaeth â Choleg Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro yn paratoi dysgwyr ar gyfer gyrfa yn y sector ynni adnewyddadwy.

Chwarter 2

- Cynhaliodd Coleg Sir Benfro ddigwyddiad ymgysylltu ar gyfer busnesau a myfyrwyr lleol sy'n cymryd rhan mewn Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy.
- Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy yn dechrau cyflawni.
- Pum prosiect pilot wedi'u cymeradwyo gan fwrdd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol gan gynnwys prosiect Codi Ymwybyddiaeth Carbon Isel a Charbon Sero Net, Sgiliau Gweithgynhyrchu Batris, Sgiliau'r 21ain Ganrif, pilot y Sector Digidol a'r prosiectau Meithrin Iechyd a Llesiant mewn Byd Digidol.

Chwarter 3

- Penodwyd Enfys Stallard yn Swyddog Perfformiad a Monitro Ansawdd a Leanne Roberts yn Swyddog Datblygu Sgiliau.
- Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy yn ennill Gwobr Ynni Gwynt ar y Môr 2022 yng Ngwobrau Ynni Gwynt ar y Môr Renewables UK 2022 a chyrraedd y rownd derfynol yng Ngwobrau STEM Cymru 2022.
- Cynhaliodd Y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol ddigwyddiad i lansio eu cynllun cyflogaeth a sgiliau rhanbarthol.

Chwarter 4

- Tri phrosiect pilot arall wedi'u cymeradwyo gan fwrdd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol gan gynnwys prosiectau Hyfforddiant Technolegau 5G Sgiliau Sero Net Cymru a How Green Was My Valley.
- Cwblhau Adolygiad Gateway Sicrwydd gan arwain at ail Sgôr Werdd yn olynol.
- Julian Lloyd wedi'i benodi'n Swyddog Prosiect Llwybr Gyrfaedd.



Seilwaith Digidol



£69.1m Buddsoddiad
£24.5m Y Fargen Ddinesig
£13.5m Sector Cyhoeddus
£31.1m Sector Preifat

Mae seilwaith digidol yn thema drawsbynciol trwy holl brosiectau a rhaglenni Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae'n hanfodol i gyflawni agendâu trawsnewid digidol partneriaid rhanbarthol, twf economaidd y rhanbarth a gwella cynhwysiant cymdeithasol.

Dim ond trwy gydweithio â diwydiant, llywodraeth a phartneriaid rhanbarthol y gellir cyflawni dyheadau'r rhaglen. Rhannu'r llwyddiannau a'r heriau, defnyddio data i wneud penderfyniadau a bod yn ystywyth o ran darparu.



Diweddariadau Allweddol:

Chwarter 1

- Cymryd rhan yng Ngrŵp Mabwysiadwyr Cynnar DCIA Cenedlaethol Llywodraeth y DU i gael cipolwg ar y gwersi a ddysgwyd a'r arfer gorau sy'n deillio o gynlluniau peilot cenedlaethol.
- Cefnogi'r defnydd o seilwaith digidol ar asedau sy'n eiddo i'r sector cyhoeddus.
- Gosod Pwrth LoRaWAN rhanbarthol wedi dechrau, gan greu Rhwydwaith Arloesi Digidol Rhanbarthol y gall partneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat ei ddefnyddio i dreialu a phrofi cymwysiadau Rhyngrywyd Pethau (IoT).
- Cyhoeddiadau buddsoddi sector preifat rhanbarthol sylweddol wedi'u gwneud gan Openreach ac Ogi.

Chwarter 2

- Cychwyn gwaith ymgysylltu cyn y farchnad gydag adeiladwyr ffibr i brofi dull arfaethedig o ddarparu cysylltedd ffibr i safleoedd ac asedau'r sector cyhoeddus ar draws y rhanbarth.
- Lansio ymgynghoriad i nodi cyfleoedd i fanteisio ar seilwaith digidol ar draws y rhanbarth i lywio portffolio digidol rhanbarthol.



Band eang
ffwell i bawb...
heb adael neb
ar ôl.



Rhanbarth **SMART**
sy'n barod ac yn gallu
arloesi a mabwysiadu
technolog sy'n dod i'r
amlyg.



Tirwedd ddigidol
gynhwysol sy'n
diwallu anghenion
pawb.

Chwarter 3

- 100k o gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu i ehangu'r Rhwydwaith Arloesi Digidol Rhanbarthol.
- Cychwyn oedi ac adolygu ffrwd waith Lleoedd Cysylltiedig yn dilyn cyhoeddi hygyrchedd ffibr ar draws y rhanbarth gyda'r nod o sicrhau'r gwerth gorau am arian cyhoeddus.
- Cwblhau ymarfer recriwtio adnoddau a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer ein ffrydiau gwaith Gwledig a Di-wifr y Genhedlaeth Nesaf.

Chwarter 4

- Gwireddu buddion wedi'i gwblhau ar gyfer 2021-22 a gadarnhaodd fuddsoddiad cyhoeddus a phreifat sylweddol o oddeutu £7.6m a £21.8m yn y drefn honno.
- Ymarfer oedi ac adolygu ynghylch llyf gwaith Lleoedd Cysylltiedig wedi'i gwblhau gan nodi'r llwybrau cyflawni mwyaf
- priodol ar gyfer symud ymlaen â gwariant cyfalaf.
- Sefydlu cynlluniau ac amserlenni ar gyfer buddsoddiad sylweddol y Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN) ar draws y rhanbarth gan weithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Deialog ac ymgysylltiad parhaus yn 2022-23:


- Lobio cyflenwyr a'r llywodraeth ac ymgysylltu â nhw.
- Hwyluso'r gwaith arfaethedig rhanbarthol o adeiladu ffeibr gan bartneriaid yn y sector preifat.
- Adolygu'r cwmpas band eang Gigabit a ragwelir ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a gwneud penderfyniadau ar ein gwaith caffael o ran band eang cyflym iawn gwledig.

Gwella Cysylltedd ar gyfer De-orllewin Cymru

Ar ôl cwblhau'r broses o wireddu buddion ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22, a ddigwyddodd yn 2022-23, dangoswyd bod y rhaglen eisoes wedi rhagori wrth fodloni disgwyliadau buddsoddi.

- Dywedon ni y byddem yn darparu **£2.5m o Fuddsoddiad yn y Sector Cyhoeddus**, a gwnaethom gyflawni **£7.6m** mewn gwirionedd.
- Dywedon ni y byddem yn darparu **£0m o Fuddsoddiad yn y Sector Preifat**, a gwnaethom gyflawni **£14.56m** mewn gwirionedd.
- Dywedon ni y byddem yn darparu **buddsoddiad rhanbarthol Bargen Ddinesig Bae Abertawe gwerth £0.5m**, a gwnaethom gyflawni **£0.5m** mewn gwirionedd.

Crynodeb o'r buddsoddiad (£m)



O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn ym mis Mai 2022:

- Roedd y rhanbarth yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer cysylltedd ar gyfradd gigabit.
- Roedd y rhanbarth yn gyfartal â gweddill cyfartaledd y DU ar gyfer cysylltedd cyflym iawn.
- Erbyn hyn mae gan dros **100,000** o safleoedd ychwanegol ar draws y rhanbarth fynediad i gysylltedd gigabit.
- Gwella cwmpas 4G ar draws y rhanbarth gyda phob un o'r pedwar awdurdod yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU ar gyfer canran cwmpas 4G ar draws y 4 darparwr rhwydwaith.

£318.8m
Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

10+
Prosiect Band Eang Cymunedol

200+ o Safleoedd Sector Cyhoeddus
wedi'u huwchraddio i ffeibr llawn

250+ o byrth Rhyngrywyd Pethau
wedi'u defnyddio





Yr Egin



£25.2m Buddsoddiad
£5.0m Y Fargen Ddinesig
£18.5m Sector Cyhoeddus
£1.7m Sector Preifat

Clwstwr digidol a chreadigol yw Canolfan S4C Yr Egin, ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin.

Mae gan yr adeilad eiconig awditoriwm, cysylltodd cyflym iawn, llecynnau swyddfa o'r radd flaenaf a chyfleusterau ôl-gynhyrchu ar gyfer gweithgareddau proffesiynol a chymunedol. Mae'r darlledwr Cymraeg S4C yn un o denantiaid yr Egin ac mae nifer o gwmnïau creadigol wedi cydlooli yn y ganolfan, gyda graddfa feddiannaeth o dros 90% ar bob adeg. Nod Yr Egin yw bod yn gatalydd ar gyfer cymuned clwstwr creadigol, ysbrydoli cydweithio, datblygu talent, a gwella statws y Gymraeg.

Bydd Cam 2 Yr Egin, sydd ar ddod, yn cefnogi sector y diwydiant creadigol yn y rhanbarth ymhellach, a rhagwelir y bydd yn ymwneud â darparu Cyfleuster Cynhyrchu Digidol.

Diweddariadau Allweddol:

Chwarter 1

- Cynhaliodd y Brifysgol Astudiaeth Galw'r Sector Creadigol gyda'r canfyddiadau'n cael eu hadrodd i'r Swyddfa Rheoli Portffolio (PoMO) a dechreuodd Proses Nodi Newid yn ffurfiol ar gyfer Cam 2 Yr Egin.

Chwarter 2


- Gwnaeth tîm mewnol Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant gwrdd i drafod y strategaeth gyflawni sy'n ofynnol yn dilyn Astudiaeth Galw'r Sector Creadigol.
- Ymunodd S4C a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant â phrosiect LocalMotion Caerfyrddin sy'n bwriadu creu'r dref hapusaf a mwyaf llewyrchus yng Nghymru.

Chwarter 3

- Datblygodd tîm mewnol Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant strategaeth gyflawni newydd ar gyfer Cam 2.
- Gŵyl Cyfryngau Rhyngwladol gyntaf Cymru wedi'i chynnal yn Yr Egin.
- S4C wedi dathlu 40 mlynedd o ddarlledu.

Chwarter 4

- Ymgysylltodd y Brifysgol ag ymgynghorwyr arbenigol i ddatblygu cynnig ar gyfer Cam 2 a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu Cyfleuster Cynhyrchu Digidol mewn man presennol yn y Brifysgol.
- Roedd Cam 1 yn cynnal lefel deiliadaeth o 95%. Ymhlith y tenantiaid roedd S4C, Atebol, Boom Cymru, Carlam, Moilin, Rural Office, Stiwdioibox a Theatr Genedlaethol Cymru.



Campysau



£130.9m Buddsoddiad
£15.0m Y Fargen Ddinesig
£58.5m Sector Cyhoeddus
£57.4m Sector Preifat

Bydd y prosiect Campysau yn cyflwyno dwy fenter ategol; un wedi'i lleoli ar Gampws Singleton ym Mhrifysgol Abertawe ac un yn Ysbyty Treforys, yn ychwanegu gwerth at y sectorau gwyddor bywyd, iechyd a chwaraeon rhanbarthol.

Bydd cyfleusterau ymchwil a datblygu uwch yn cael eu creu. Bydd cydweithio rhwng ymchwil academiaidd, diwydiant a'r GIG yn rhoi'r prosiect hwn ar flaen y gad o ran technolegau newydd i wella gofal iechyd, gan greu cyfleoedd ar gyfer cwmnïau gwyddorau bywyd a thechnoleg chwaraeon newydd a chreu swyddi medrus iawn i bobl yn y rhanbarth.



£150m Cyfraniad at GYC Rhanbarthol



1,120 Swyddi a Grewyd



2,000m² Lle Ymchwil ar gyfer gwyddor bywyd a thechnoleg chwaraeon



700m² Canolfan Cydweithio Masnachol ac Academiaidd



300+ Cyfleoedd Mewnffuddsoddi



100+ Arloesi a Chyfleoedd Masnachol

Diweddariadau Allweddol:

Chwarter 1

- Cynhaliwyd asesiad ecolegol ar safle Singleton a gwnaed cost ddiwygiedig amcangyfrifedig ar gyfer adeiladu o'r newydd.
- Yn dilyn Adolygiad Gateway ym mis Gorffennaf 2021 aethpwyd i'r afael â'r argymhellion, gydag wyth cam gweithredu wedi'u cwblhau a thri yn parhau. Bydd y tri cham gweithredu sy'n mynd rhagddynt yn parhau i fod ar agor drwy gydol y prosiect a byddant yn cael eu hadolygu'n barhaus ar adegau rheolaidd.

Chwarter 2

- Ymwelodd Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi Llywodraeth Cymru, â Champws Singleton Prifysgol Abertawe i gwrdd â rhanddeiliaid allweddol a dysgu mwy am y prosiect.
- Penodwyd Clare Henson yn Rheolwr Prosiect a Sara Merrells yn Swyddog Prosiect.
- Adolygiad o Gytundeb Cyllido Sylfaenol a ddrafftwyd rhwng Cyngor Abertawe a Phrifysgol Abertawe.

Chwarter 3

- Penodwyd Alex Evans yn Rheolwr Datblygu Busnes a Chyfathrebu.
- Briff dylunio Canolfan Rheoli Safle Treforys wedi'i gymeradwyo gan Brifysgol Abertawe.

Chwarter 4

- Parhaodd trafodaethau rhwng Prifysgol Abertawe a Chyngor Abertawe ar y Cytundeb Cyllido, gyda'r gwelliannau terfynol yn cael eu hadolygu cyn rhoi cymeradwyaeth.
- Penododd Prifysgol Abertawe dîm dylunio amlddisgyblaethol ar gyfer yr adeilad newydd ar safle Singleton.
- Rhoddyd cyfarwyddyd i gynnal arolwg ecoleg ar ffordd fynediad Treforys.





Pentre Awel



£200.5m Buddsoddiad
£40.0m Y Fargen Ddinesig
£52.3m Sector Cyhoeddus
£108.2m Sector Preifat

Gan gyfuno ymchwil gwyddor bywyd, cyfleusterau datblygu busnes, gofal iechyd cymunedol, byw gyda chymorth a chanolfan hamdden a gweithgareddau dŵr o'r radd flaenaf, bydd Pentre Awel yn Llanelli ymhlith y datblygiadau cyntaf o'i fath.

Bydd cyfleusterau addysg a hyfforddiant yn ganolbwynt i'r prosiect a bydd yn canolbwyntio ar hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd.



LLANELLI - SIR GAERFYRDDIN - CYMRU

Pentre Awel

LLANELLI - CARMARTHENSHIRE - WALES



£467m
Cyfraniad at GYC Rhanbarthol



1,853
Swyddi a Grewyd



50,000m² o ddatblygiad ar draws y pedwar Parth



12,000m² i fusnesau, ymchwil, addysg, clinigol ac ir gymuned



80 o Fusnesau Gwyddor Bywyd wedi'u Sefydlu/Cefnogi

Diweddariadau Allweddol:

Chwarter 1

- Partneriaeth strategol gyda Phrifysgol Caerdydd (CU) wedi'i sefydlu i arwain ar y swyddogaethau arloesi a datblygu busnes.
- Tîm wedi'i sefydlu i ystyried sut y gellir defnyddio'r gofod awyr agored i gyd-fynd ag amcanion y prosiect sef hybu iechyd, atal a hwyluso annibyniaeth.
- Cymeradwyo'r Cais Materion a Gedwir yn ôl gan y Pwyllgor Cynllunio. Arolygon Ymchwilio Tir ac Ecoleg wedi'u cynnal.
- Ymgysylltodd Bouygues UK (BYUK) â sefydliadau lleol i gynllunio rhaglen o fuddion cymunedol, gan ganolbwyntio ar recriwtio a hyfforddi, cadwyn gyflenwi, ysgolion ac ymgysylltu â'r gymuned.
- Wedi caffael dylunio a datblygu parth 3, y lle byw â chymorth ac ehangu busnes.

Chwarter 2

- Ymwelodd David T C Davies, Gweinidog Llywodraeth y DU â'r safle i gwrdd â phartneriaid allweddol.
- Cwblhaodd BYUK weithgareddau allweddol cyn y gwaith adeiladu a dosbarthu eu llythyr newyddion cymunedol cyntaf, hyrwyddo'r cynllun llysgenhadon cymunedol, ac ymgysylltu â dros 700 o ddisgyblion mewn ysgolion lleol.
- Dechreuodd y prosiect ymchwil cyntaf – partneriaeth gyda fferyllfa leol a'r Scarlets i ddechrau ysgogi gweithgareddau ymchwil a datblygu prawf o gysyniad.
- Ymarfer mapio Addysg, Sgiliau a Hyfforddiant wedi'i gwblhau gan gynnwys gwaelodlin y ddarpariaeth cwrs/rhaglen gyfredol mewn meysydd pwnc perthnasol. Bydd hyn yn nodi darpariaeth ychwanegol sydd ei hangen i sicrhau staffio cynaliadwy a helpu i fynd i'r afael â heriau recriwtio/cadw yn yr ardal ehangach.

Chwarter 3

- Dechrau gwaith galluogi yn cynnwys strided safle a draeniau newydd.
- Roedd gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth i ddarparu sgiliau a hyfforddiant ym Mhentre Awel a chanolbwyntio ar ddatblygu'r achos busnes i sicrhau darpariaeth gynaliadwy i ddiwallu anghenion.
- Trafodaethau Ymchwil ac Arloesi wedi'u cynnal gyda'r tair prifysgol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i osod y paramedrau ar gyfer datblygu ymchwil ac arloesi.

Chwarter 4

- Rhaglen cyn-adeiladu wedi'i chwblhau, a chytundeb adeiladu wedi'i gymeradwyo gan Gyngor Llawn CSC. Digwyddiad arloesol gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru Llywodraeth y DU.
- Digwyddiad Cwrdd â'r Contractwr wedi'i gynnal ar gyfer preswylwyr, gan ddechrau cyfres o gymorthfeydd galw heibio misol.
- Canlyniadau BYUK ar gyfer recriwtio a hyfforddiant wedi'u pennu gydag isafswm o 4,680 o wythnosau person i'w cyflawni. Yn ystod y cyfnod cyn-adeiladu, darparodd BYUK 1000+ o sesiynau rhyngweithio â disgyblion, 30 awr o ymgysylltiad STEM a chroesawyd 350 o ddisgyblion i'w Believe Academy.
- Cynllun Gweithredu ac Asesiad o Effaith yr Iaith Gymraeg wedi'u datblygu i sicrhau bod effaith gadarnhaol ar ddefnydd a hygyrchedd y Gymraeg.
- Enillydd Gwobr Cynaliadwyedd BYUK 2023 am arbed dros 77,600kg o Garbon Deuocsid yn cael ei rhyddhau ar y safle dros gyfnod o 15 wythnos.



Trwy'r prosiect Pharmabees y mae'r ysgol yn gweithio arno gyda Phentre Awel, mae'r arbenigedd y mae'r ymchwilwyr wedi'i gyflwyno i'r ystafell ddosbarth wedi bod yn ddylanwadol. Rydym yn falch bod ein plant yn cyflwyno mewn cynadleddau i academyddion am bi-adweithyddion, bioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd, micro-blastigau ar eu traeth lleol, a phriodweddau gwrth-ganser mêl y gwenyn yn ein cwch gwenyn! Mae'r bartneriaeth hon wedi ysbrydoli llawer o blant i ddod yn wyddonwyr ac i astudio am radd.

Joe Cudd
Dyfyniad, Ysgol Pen Rhos

Rhaglen Pharmabees

Gan adeiladu ar y prosiect Cyflymu a chefnogi bioamrywiaeth yn Llanelli, bu Prifysgol Caerdydd yn gweithio gydag Ysgol Pen Rhos a'r cyngor i greu cynefinoedd sy'n denu pryfed peillio. Gosodwyd cwch gwenyn yn yr ysgol ac roedd y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd yn cefnogi bioamrywiaeth, gwelliannau amgylcheddol ac o fewn y man gwyrdd ehangach, darparu cyfleoedd i'w teulu dreulio amser ym myd natur.

Astudiaeth Covid Hir

Fel prosiect prawf o gysyniad, daeth Prifysgol Caerdydd o hyd i gyllid i gefnogi astudiaeth feddygol i brofi manteision therapi ocsigen hyperbarig ar Covid hir. Roedd siambr Ocsigen hyperbarig wedi'i lleoli o fewn canolfan hyfforddi Rygbi'r Scarlets, cafodd cleifion eu nodi gan fferyllfa leol a chafodd rhaglen driniaeth ei llunio. Dyluniwyd y treial hwn i brofi cydweithio preifat/cyhoeddus/academaidd.

Gwneud Llefydd argyfer Natur

Partneriaeth academaidd a menter sy'n ceisio gweithio gyda'r gymuned gyfagos i gyd-gynhyrchu cynlluniau ar gyfer gwella ansawdd a mynediad i fannau naturiol. Nododd y broses gyd-gynhyrchu nifer o argymhellion allweddol i greu gofod awyr agored mwy cynhwysol a hygyrch sy'n blaenoriaethu iechyd a llesiant aelodau'r gymuned a chadwraeth yr amgylchedd naturiol.





Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel



£59.6m Buddsoddiad
£48.3m Y Fargen Ddinesig
£5.8m Sector Cyhoeddus
£5.5m Sector Preifat

Bydd y rhaglen hon yn darparu saith prosiect sy'n cefnogi swyddi a thwf yn y sectorau technoleg ac arloesi carbon isel.

1. Mae Canolfan Dechnoleg y Bae (BTC) yn darparu swyddfa hyblyg a labordai.
2. Cyfleuster ymchwil datgarboneiddio diwydiannol yw Canolfan Ddiwydiannol Pontio o Garbon De Cymru (SWITCH).
3. Mae'r Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch yn darparu cyfleusterau hybrid, unedau cynhyrchu a gofod swyddfa ar y cyd ag adeilad prentisiaid.

4. Mae'r Gronfa Datblygu Eiddo (PDF) yn cynnwys £4.5m o gyllid llenwi bwlch gyda'r nod o annog datblygiad yn ardal Glannau Port Talbot.
5. Datblygu Strategaeth Gwefru Cerbydau Allyriadau Isel ar gyfer ardal Castell-nedd Port Talbot.
6. Bydd y Prosiect Monitro Ansawdd Aer yn profi synwryddion cost isel amgen i asesu ansawdd aer a llygredd.
7. Bydd y Prosiect Ysgogiad Hydrogen yn galluogi trydan adnewyddadwy sydd dros ben o Ganolfan Dechnoleg y Bae i gael ei drawsnewid i danwydd hydrogen ar gyfer cerbydau.

Diweddariadau Allweddol:

Chwarter 1

- Morgan Sindall, y contractwr adeiladu ar gyfer Canolfan Dechnoleg y Bae yn ennill dwy wob: Gwobr Sero Net mewn Adeiladu Rhagoriaeth Cymru (CEW) 2022 a'r Wobr Gynaliadwyedd yng Ngwobrau Eiddo Insider Cymru 2022.
- Rhyddhau manylion ar sut y gall cwmnïau lleol gael mynediad i'r Gronfa Datblygu Eiddo a fydd yn helpu busnesau i ehangu yn y rhanbarth trwy amrywiol welliannau i'r seilwaith.
- Ymarfer mapio pob lleoliad Sero Allyriadau Cerbydau mewnol, allanol a chyhoeddus

Chwarter 2

- Trosglwyddo Canolfan Dechnoleg y Bae o Morgan Sindall i Gastell-nedd Port Talbot a'r ddau denant cyntaf yn cymryd meddiannaeth. Adeilad yn ennill Prosiect Eiddo Masnachol y Flwyddyn yng ngwobrau Diwydiant Adeiladu Prydain (BCI) 2022.
- Tendr wedi'i bostio ar eDendro ar gyfer Dylunio ac Adeiladu prosiect Canolfan Ddiwydiannol Pontio o Garbon De Cymru.
- Ras Gyfnewid Baton y Frenhines yn pasio Canolfan Hydrogen Parc Ynni Bae Baglan.

Chwarter 3

- Archwiliad mewnol Castell-nedd Port Talbot wedi'i gynnal gyda chanlyniad o 'Sicrwydd Sylweddol' – y sgôr uchaf y gellir ei chyflawni ar gyfer y Rhaglen.
- Fideo hyrwyddo Canolfan Dechnoleg y Bae wedi'i recordio a'i ryddhau.
- Diwrnod agored ar gampws Bae Prifysgol Abertawe a SAMI i ddarparu gontractwyr weld cyfleusterau ac offer i gael gwell dealltwriaeth o'r gofynion ar gyfer cyfleuster Canolfan Ddiwydiannol Pontio o Garbon De Cymru.
- Dadansoddw'r Data wedi'i recriwtio ar gyfer Prosiect Monitro Ansawdd Aer i werthuso data a llywio mentrau gwella yn y dyfodol o ran ansawdd aer.
- Gwerth £12.5m o geisiadau ar gyfer grant y Gronfa Datblygu Eiddo gwerth £4.5m.
- Prosiect Ysgogi Hydrogen, cytundeb cyllido rhwng CNPT a USW wedi'i ddatblygu.

Chwarter 4

- Cwblhau'r llythyr indemniad gyda Phrifysgol Abertawe ar gyfer Canolfan Ddiwydiannol Pontio o Garbon De Cymru.
- Cau ceisiadau Cam 1 ar gyfer y Gronfa Datblygu Eiddo.
- Penodi ymgynghorwyr Ricardo i ymgymryd â gweithgareddau Prosiect Monitro Ansawdd Aer, blwyddyn 2.
- Dechrau proses gaffael y Rhaglen Ysgogiad Hydrogen ar gyfer yr offer electroleiddio.
- Cynhaliodd Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch gyfarfodydd ymgysylltu â'r farchnad gyda'r diwydiant, y byd academiaidd a Llywodraeth Cymru

Canolfan Dechnoleg y Bae

Wedi'i hadeiladu gan Morgan Sindall a'i lleoli ym Mharc Ynni Bae Baglan y mae'r gofod swyddfa a labordy modern hwn sy'n adeilad ynni-effeithlon - y cyntaf o'r fath yng Nghymru.

Cyfnod talu'n ôl cyflymach o **7.8 blwyddyn**

Wedi'i modelu'n ddigidol

Panelli ffotofoltäig wedi'u hintegreiddio i ffasâd yr adeilad

Perfformiad ynni yn rhagori ar y rheoliadau adeiladu o **281%**

Gwelliant o **42%** mewn effeithlonrwydd dŵr o'i gymharu â llinell sylfaen BREEAM 2018.

Wedi'i hamgylchynu gan **407m²** o goetir gwlyb

2,500 metr sgwâr o swyddfa hyblyg a gofod labordy

Adeiladu ar amser ac o fewn y gyllideb

Mae gan Ganolfan Dechnoleg y Bae bum tenantiaeth eisoes, gan gynnwys Crossflow Energy, arbenigwr technoleg ynni adnewyddadwy blaenllaw o Gymru sydd wedi symud i'r safle.

“ Ein nod yw helpu busnesau ledled y byd i ddefnyddio pŵer 'gwynt bach' i'w cefnogi nhw wrth gyflwyno atebion ynni glân a dibynadwy. Nawr mae gennym eiddo sy'n ein galluogi i wneud yn ogystal â dweud. Mae'n ardal newydd ar gyfer Crossflow Energy, ac erbyn hyn mae gennym sylfaen sy'n bodloni ein huchelgeisiau cynaliadwy ein hunain. **Martin Barnes** CEO at Crossflow Energy ”



Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.



Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau



£171.5m Buddsoddiad
£50.0m Y Fargen Ddinesig
£84.7m Sector Cyhoeddus
£36.9m Sector Preifat

Cyda'r nod o yrru datblygiad a thwf economaidd rhanbarthol a dinesig, mae'r rhaglen hon yn cynnwys:

1. Datblygiad Arena Abertawe yn ardal cam un Bae Copr gwerth £135m yng nghanol y ddinas.
2. Datblygiad swyddfa o'r radd flaenaf yn 71/72 Ffordd y Brenin sy'n darparu lle ar gyfer 600 o swyddi, amgylcheddau cydweithio hyblyg a gofod swyddfa ar gyfer y sectorau technoleg a digidol arloesol. Bydd yn adeilad carbon sero-net pan fydd ar waith.
3. Datblygiadau Matrics Arloesi a Rhodfa Arloesi wedi'u cyflawni gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, gyda'r bwriad o gynnal busnesau newydd a meithrin entrepreneuriaeth trwy gysylltiadau agos â'r byd academaidd.

Diweddariadau Allweddol:

Chwarter 1

- Enillodd Tîm Y Tu Hwnt i Frics a Morter, Cyngor Abertawe, wobwr canmoliaeth arbennig yng Nghynllun GO Awards ar draws y DU am eu gwaith ar yr Arena.
- Gwaith capio seilbyst, draenio a pharatoi wedi parhau yn 71/72 Ffordd y Brenin.
- Cymeradwyaeth gynllunio wedi'i dderbyn a dyluniad cam 4 wedi'i gwblhau i raddau sylweddol ar gyfer y Matrics Arloesi. Cynhaliodd Kier Group ddigwyddiad Cwrdd â'r Prynwr.
- Dylunio Cam 3 y Matrics Arloesi wedi'i gwblhau.

Chwarter 2

- 100,000 o docynnau wedi'u gwerthu yn yr Arena gan gynnwys John Bishop, Alice Cooper a Kaiser Chiefs.
- Lefelau slabiau gwaelodol wedi'u cwblhau a gwaith arllwys wedi dechrau yn 71/72 Ffordd y Brenin.

Chwarter 3

- 145,000 o docynnau wedi'u gwerthu yn yr Arena a Thîm Y Tu Hwnt i Frics a Morter, Cyngor Abertawe wedi cwblhau data buddion.
- Bouygues UK yn croesawu myfyrwyr Peirianeg Sifil o Brifysgol Abertawe i 71/72 Ffordd y Brenin
- i ddysgu am adeiladu, a'r cyfleoedd gyrfa sydd ar gael.
- Drafftiodd PCDDS gam cyntaf yr Hysbysiad Cais am Newid ar gyfer y Rhodfa Arloesi a oedd yn edrych ar adnewyddu adeilad presennol yng nghanol y ddinas.
- Contract adeiladu Matrics Arloesi wedi'i drafod a'i gytuno.

Chwarter 4

- Arena Abertawe yn dathlu ei phen-blwydd yn 1 oed.
- Gwaith ar ddyluniad a raglen y gwesty'n parhau.
- Adeiladu yn unol â'r amserlen ar gyfer 71/72 Ffordd y Brenin gyda gwaith tir wedi'i gwblhau. Trefnodd Cyngor Abertawe daith i annog plant i ystyried gyrfa ym maes adeiladu a pheirianeg.
- 71/72 Ffordd y Brenin wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobrau Cynaliadwyedd Bouygues UK 2023.
- Matrics Arloesi wedi dechrau ar y safle.
- Datblygu dyluniad Rhodfa Arloesi wedi dechrau.

Arena Abertawe: 1 flwyddyn o weithredu



Bron i **240,900** o ymwelwyr



74 perfformiad â thocynnau



45 diwrnod o arddangosfeydd



32 digwyddiad Dysgu Creadigol gyda **1,340** o fynychwyr



Gwerthiant o bron i **79%** ar sioeau â thocynnau



24 swydd barhaol wedi'u creu gyda llawer

Ers ei agoriad swyddogol gan Lywodraeth y DU a Gweinidogion Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2023, mae Arena Abertawe wedi croesawu dros 240,000 o ymwelwyr yn ei blwyddyn lawn gyntaf. Yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau prawf, y comediwr John Bishop oedd y seren gyntaf i ymddangos ar y llwyfan, ac ers hynny mae llawer o berfformiadau mawr eraill wedi cynnwys, Alice Cooper a The Cult, a Michael McIntyre yn ogystal â digwyddiadau fel Cynhadledd Canol Dinas 4 the Region, Confensiynau Hapchwarae, cyfarfodydd Sector Cyhoeddus a seremonïau graddio y brifysgol.

Mae'r arena, a ddatblygwyd gan Buckingham Group ar ran Cyngor Abertawe ac sy'n cael ei chynnal gan Ambassador Theatre Group, yn rhan o brosiect ardal Bae Copr Abertawe, gwerth £135m sydd hefyd yn cynnwys parc arfordirol, a'r bont newydd dros Heol Ystumllwynarth.



Ers ei agor, mae'r arena wedi newid pethau, adfywio'r economi leol, darparu nifer o gyfleoedd ar gyfer twf a chael effaith gadarnhaol sylweddol ar fusnesau yn yr ardal. Mae'r arena nid yn unig wedi creu cyfleoedd newydd i fusnesau ond hefyd wedi creu awyrgylch bywiog a deinamig yng nghanol y ddinas, gan wella enw da Abertawe ymhellach fel cyrchfan ffyniannus. Rydym wedi derbyn adroddiadau gan sawl sefydliad eu bod wedi profi cynnydd rhyfeddol mewn busnes. Mewn rhai achosion, mae busnesau wedi adrodd ar lafar bod cynnydd anhygoel o tua 200% yn eu sylfaen cwsmeriaid ers i'r arena agor ei drysau. Mae wedi dod yn atyniad mawr, gan ddenu nifer sylweddol o ymwelwyr i Abertawe o'r ddinas a thu hwnt. O ganlyniad, mae busnesau lleol, fel bwytaï, caffis a bariau yn arbennig, wedi gweld cynnydd aruthrol yn nifer yr ymwelwyr a'r galw gan gwsmeriaid. Mae'r cynnydd mewn gweithgarwch busnes wedi cael effaith gynyddol ar draws yr economi leol. Mae busnesau wedi gallu ehangu eu gweithrediadau, buddsoddi mewn gwelliannau, a llogi staff ychwanegol i ateb y galw cynyddol. Mae hyn wedi arwain at greu swyddi, cynnydd mewn refeniw treth, a hwb economaidd cyffredinol i'r ddinas.

Mae wedi rhoi bywyd newydd i'r economi leol, gan greu amgylchedd ffyniannus a llewyrchus i fusnesau ffynnu. Fel Ardal Gwella Busnes Abertawe, rydym wedi ymrwmo i gefnogi a manteisio ar y momentwm cadarnhaol hwn, gan sicrhau bod manteision yr arena yn parhau i gael eu teimlo ledled cymuned yr Ardal Gwella Busnes.

Dyfyniad Russell Greenslade:

Prif Weithredwr, Ardal Gwella Busnes Abertawe (AGB)



£669.8m Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

1,281 Swyddi a Grewyd

50+ Cyfleoedd a lle i Fusnesau Newydd i Raddedigion

8,700+ Wythnosau Hyfforddi

10,684m² Cyfleuster ar Gyfer Busnesau sy'n Canolbwyntio'n Ddigidol

3,500 Arena dan do capasiti



71/72 Kingsway is part funded by the European Regional Development Fund through the Welsh Government.



Ardal Forol Doc Penfro



Ynni, a
Gweithgynhyrchu
Clyfar

£63.9m
£28.0m
£18.4m
£17.5m

Buddsoddiad
Y Fargen Ddinesig
Sector Cyhoeddus
Sector Preifat

Bydd y prosiect hwn yn sefydlu canolfan gynhyrchu, profi a lleoli o safon fyd-eang ym maes ynni a pheirianeg forol, a fydd yn darparu'r cymorth a'r seilwaith sydd eu hangen er mwyn i economi carbon isel Cymru dyfu ymhellach.

Mae'r prosiect yn ehangu ar gyfleusterau sefydledig a chronfa sgiliau helaeth y rhanbarth, gan sicrhau eu bod yn gweithredu mewn modd mor effeithlon â phosibl a chynyddu'r cyfleoedd i arloesi, a fydd yn helpu i leihau costau cynhyrchu ynni'r môr.

Wrth ganolbwyntio ar dwf y diwydiant cynhyrchu ynni di-garbon, mae'r prosiect yn cynnwys safleoedd profi pwrpasol ar gamau cynnar ac ar raddfa fasnachol, canolfan arloesi CATAPULT, a seilwaith porthladd â ffocws ar ddiwydiant i sicrhau bod datblygwyr yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cost eu technoleg arloesol a'r modd y caiff ei gosod ar draws pedwar prif brosiect:

1. Bydd Seilwaith Doc Penfro (PDI) yn ail-lunio seilwaith ffisegol Porthladd Penfro i sicrhau'r arbedion gweithredol mwyaf posibl ar gyfer diwydiant y DU.
2. Bydd Ardal Profi Ynni'r Môr (META) yn creu parthau trwyddedig a ganiatawyd ymlaen llaw o fewn Dyfrffordd Aberdaugleddau ar gyfer profi dyfeisiau cydran a graddfa.
3. Bydd Canolfan Ragoriaeth Peirianeg Ynni Morol (MEECE) yn cynnal profion bywyd ar elfennau ynni morol i roi hwb i'w hirhoedledd.
4. Mae Parth Arddangos Sir Benfro (PDZ) yn galluogi seilwaith ynni adnewyddadwy ar y môr i gataleiddio cyfleoedd ynni gwynt ac ynni môr arnofiol ar y Môr Celtaidd.

Diweddariadau Allweddol:

Chwarter 1

- Cynhaliodd Porthladd Penfro Ddigwyddiad Rhwydweithio Busnes i fusnesau sydd wedi'u lleoli yn y porthladd i rwydweithio a chwrdd â Rheolwr Masnachol y Porthladd.
- Cyhoeddi enwau adeilad Rhandai'r Awyrendai – Catalina House, Falcon House, Erebus House ac Oleander House yn dilyn cystadleuaeth gymunedol.
- Amrywiad Ardal Profi Ynni'r Môr i ganiatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo.
- Cynhaliodd staff prosiect Ardal Profi Ynni'r Môr weithdy gyda myfyrwyr peirianeg blwyddyn 10 Ysgol Harri Tudur yng Ngholeg Sir Benfro fel rhan o Weithdy Ynni Adnewyddadwy.
- Gosododd Canolfan Ragoriaeth Peirianeg Ynni'r Môr y bwi profi morol ar safle Ardal Profi Ynni'r Môr.
- Parth Arddangos Sir Benfro yn symud ymlaen i'w gyflawni gyda Chyfarwyddwr Prosiect, Rheolwr Technegol ac Arolwg a Chaniatâd yn cael eu recriwtio.

Chwarter 2

- Llyfryn wedi'i gyhoeddi yn amlinellu'r swyddfeydd a'r gweithdai sydd ar gael ym Mhorthladd Penfro yn Rhandai'r Awyrendai.
- Porthladd Aberdaugleddau yn torri tir gyda BAM Nuttall ar y llithrfa a'r pontynau cychod gwaith newydd ym Mhorthladd Penfro.
- Ymwelodd Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru, ag Ynni Môr Cymru i ddeall mwy am gyfleoedd ynni adnewyddadwy'r môr yn y rhanbarth.
- Mae Cais Grid ar gyfer 2.5GW o wynt ar y môr i Dde Sir Benfro wedi'i ddrafftio ar gyfer Parth Arddangos Sir Benfro gyda chyfarfod cyn cyflwyno cais wedi'i gynnal.
- Codi bwi Canolfan Ragoriaeth Peirianeg Ynni'r Môr yn llwyddiannus ar safle Ardal Profi Ynni'r Môr a pharatoadau ar y gweill i'w osod eto.
- Rhyddhaodd Ynni Môr Cymru Adroddiad Cyflwr y Sector.
- Adroddiad Cysyniad Technegol Parth Arddangos Sir Benfro wedi'i gyflwyno, ymarfer ail-gwmpasu wedi'i gwblhau ac asiantau tir wedi'u contractio i gefnogi'r gwaith o nodi llwybrau ar gyfer ceblau.

Chwarter 3

- Enillodd Porthladd Aberdaugleddau Wobr Cynaliadwyedd Porthladd 2022 yng Nghynhadledd Cymdeithas Porthladdoedd Prydain.
- Cyhoeddwyd The Walters Group fel contractwyr ar y cyfleusterau newydd ym Mhenfro i gefnogi ynni gwynt arnofiol alltraeth (FLOW).
- BAM Nuttall wedi parhau i weithio ar y llithrfa a'r pontw'n ac R&M Williams wedi parhau i weithio ar Randai'r Awyrendai.
- Ardal Profi Ynni'r Môr wedi sicrhau trwydded forol newydd a olygai y gallai bellach ddarparu ar gyfer mwy o dyrbinau llanw a systemau angori mwy.

- Gosodwyd bwi Canolfan Ragoriaeth Peirianeg Ynni'r Môr am yr eildro yn safle Ardal Profi Ynni'r Môr ar gyfer profion pellach dros y pedwar mis nesaf.
- Celtic Sea Power (CSP) mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, Catapwlt Ynni Adnewyddadwy oddi ar yr Arfordir ac Ynni Môr Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Clwstwr y Môr Celtaidd.

Chwarter 4

- Cefnogodd holl bartneriaid y prosiect Gynhadledd Ynni Môr Cymru fwyaf erioed yn Arena
- Abertawe ac ymweliad gan Fwrdd Strategaeth Economaidd y Fargen Ddinesig.
- BAM Nuttall wedi cwblhau'r gwaith o ddymchwel Llithrfa 2, arllwys slabiau concrit wedi parhau er mwyn ffurfio'r llithrfa newydd ym Mhorthladd Penfro. Seilbyst wedi'u gosod ar gyfer y pontynau cychod gwaith. Gwaith draenio'r pwll pren wedi'i gwblhau.
- Cynllun Busnes 23-27 CSP wedi'i gymeradwyo gan gyfranddalwyr sy'n paratoi'r ffordd i'r busnes barhau i gefnogi Dinas-ranbarth Bae Abertawe gyflymu ynni gwynt arnofiol alltraeth (FLOW) a chyfle ynni morol wrth gadw'r seilwaith, y gadwyn gyflenwi a'r manteision sy'n gysylltiedig â sgiliau.
- Porthladd Aberdaugleddau, ynghyd â Chyngor Sir Penfro, Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Chymdeithas Porthladdoedd Prydain yn llwyddo i sicrhau'r Porthladd Rhydd Celtaidd yn Ne-orllewin Cymru.



£343.4m

Cyfraniad at GYC Rhanbarthol



1,881

Swyddi a Grewyd



1,000mw

Cyfraniad at Dargedau Datgarboneiddio



60,600m²

Creu Seilwaith Ffisegol



This project is part funded by the European Regional Development Fund through the Welsh Government.

Ardal Forol Doc Penfro: Adeiladu Cynaliadwy


BAM Nuttall wedi'i benodi yn brif gontractwr ar gyfer y llithrfa fawr iawn newydd, pontynau cychod gwaith a llenwi'r pwll piclo hanesyddol ym Mhorthladd Penfro fel rhan o brosiect Ardal Forol Doc Penfro, a ddechreuodd gael ei adeiladu ym mis Awst 2022.

Ap Orlhain Deunydd

Roedd angen llenwi'r pwll piclo coed gyda deunydd a fewnforiwyd a deunydd a oedd ar y safle eisoes, gyda'r deunydd a oedd ar y safle yn barod yn cael ei adfer o'r gwaith dymchwel yr hen lithrfa a wal y cei. Datblygwyd Ap Orlhain Deunydd gan y tîm adeiladu digidol mewnol i olrhain symudiadau'r deunyddiau a helpodd gyda monitro ac adrodd.

Mae'r ap yn olrhain:

- Trwydded cludo gwastraff Cludwyr
- Hawlen sy'n cael ei defnyddio i fewnforio'r deunydd
- Ffynhonnell, math a thunelledd deunydd
- Dyddiad/amser symudiadau deunydd a rhif cofrestru cerbyd



Adroddiad Cynaliadwyedd

Mae'r diwydiant peirianeg sifil ac adeiladu yn gyfrifol am 39% o'r holl allyriadau carbon byd-eang a thua 36% o'r holl ddefnydd o ynni. Bam Nuttall yn ymwybodol o'r broblem ac eisiau bod yn rhan o'r ateb.

Mae gan y cwmni uchelgeisiau o ddod yn sefydliad sero net erbyn 2026 lle mae mwyafrif o'i gystadleuwyr yn anelu at 2030. Mae BAM Nuttall yn defnyddio Mynegai Cynaliadwyedd mewnol ar gyfer monitro.

Mae'r mynegai yn edrych ar 14 mesur cynaliadwyedd ar draws prosiectau i asesu eu perfformiad yn erbyn targedau cwmni.

Yna gall Rheolwyr Prosiect nodi meysydd ar gyfer gwelliannau ac ymdrechu i gyflawni rhagoriaeth cynaliadwyedd. Mae'r 14 mesur yn dod o fewn chwe chategori sy'n cynnwys: presenoldeb data, perfformiad CO2, perfformiad gwastraff, cydymffurfio, dangos llwyddiant ac effaith gymdeithasol.

Ers mis Chwefror 2023 dangosodd yr Adroddiad Cynaliadwyedd a gomisiynwyd fod y prosiect hwn wedi sgorio perfformiad o 94% yn gyson yn erbyn yr amcanion, gyda'r cyfartaledd ar gyfer prosiectau cyfatebol rhwng 70 a 79%.

“Bydd BAM Nuttall yn parhau i weithio gyda phartneriaid Ardal Forol Doc Penfro i nodi ffyrdd arloesol a chynaliadwy o weithio er mwyn cyflawni ein uchelgeisiau Sero-net. Rydym yn gobeithio rhannu arferion gorau a gweithio gyda'n partneriaid yn y diwydiant i leihau allyriadau carbon ar draws y sector adeiladu.”

Andrew Pointon-Bell
Rheolwr Prosiect



Stori Craig Prentis TGCh ym Mhorthladd Aberdaugleddau Partner darparu ym Mhrosiect Ardal Forol Doc Penfro



Ymunodd Craig, o Sanclêr, â'r Porthladd fel prentis ar raglen 2 flynedd ar ôl astudio yng Ngholeg Sir Benfro. Mae'n rhan o'r tîm Atebion Digidol sy'n darparu cymorth technegol ar galedwedd a meddalwedd i'r staff yn y porthladd ac yn aml ef yw'r pwynt cyswllt cyntaf i weithwyr.

Ymunodd Craig, o Sanclêr, â'r Porthladd fel prentis ar raglen 2 flynedd ar ôl astudio yng Ngholeg Sir Benfro. Mae'n rhan o'r tîm Atebion Digidol sy'n darparu cymorth technegol ar galedwedd a meddalwedd i'r staff yn y porthladd ac yn aml ef yw'r pwynt cyswllt cyntaf i weithwyr.

Gwnaeth gais i fod yn brentis gan ei fod eisiau datblygu ei sgiliau a symud ymlaen yn ei yrfa mewn ffordd oedd yn golygu nad oedd yn gaeth i ystafell ddosbarth.

Trwy wneud prentisiaeth, gall ddysgu yn y swydd, gan ddefnyddio ei wybodaeth a'i sgiliau yn ymarferol ac mae ei wybodaeth yn gwella mwy a mwy bob wythnos.



Mae Craig wedi canfod bod llawer o fanteision o wneud y brentisiaeth hon. Mae'n cael ei dalu wrth iddo barhau i ddysgu, er y fantais fwyaf yw ei fod yn ennill profiad, sy'n aml yn anodd ei gael wrth ddechrau gyrfa newydd fel oedolyn ifanc.

Ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio ar gwblhau ei brentisiaeth gan barhau i wella ei sgiliau. Mae'n gobeithio aros ym Mhorthladd Aberdaugleddau unwaith y bydd wedi gorffen.

“Mae ysbrydoli a galluogi pobl ifanc lleol i ddilyn gyrfa yn y môr, ynni neu letygarwch a thwristiaeth yn nodau cymdeithasol allweddol i ni yn y Porthladd ac mae prentisiaethau yn un o'r ffyrdd y gallwn ni wneud hyn. Rydym yn awyddus i gynyddu cyfleoedd prentisiaeth yn y blynyddoedd i ddod.”

Vidette Swales
Cyfarwyddwr AD





Stori Seb Prentis Trydanol yn 71/72 Ffordd y Brenin Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau

Pan adawodd Seb yr ysgol, nid oedd yn siŵr beth oedd eisiau ei wneud, ond ar ôl gweithio gyda'i dad ar brosiectau adnewyddu tai, sylweddolodd ei fod yn hoffi gweithio ym maes adeiladu.

Pan adawodd Seb yr ysgol, nid oedd yn siŵr beth oedd eisiau ei wneud, ond ar ôl gweithio gyda'i dad ar brosiectau adnewyddu tai, sylweddolodd ei fod yn hoffi gweithio ym maes adeiladu.

Sicrhaodd Seb le ar raglen brentisiaeth y CMB yn 2022, fel rhan o'r ymgyrch i recriwtio prentisiaid lleol, sy'n rhan o ofynion recriwtio a hyfforddi wedi'u targedu Cyngor Abertawe a Bouygues UK ar gyfer contract adeiladu 71/72 Ffordd y Brenin gwerth £34m a ariennir gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe.

Ers hynny, mae CMB, is-gontractwr mecanyddol a thrydanol mawr yn Ne Cymru, wedi cofrestru Seb ar gyfer Lefel 2 Gosodiadau Trydanol yng Ngrŵp Castell-nedd Port Talbot ar gampws Afan, sy'n golygu ei fod yn y coleg un diwrnod yr wythnos ac mae'n treulio'r pedwar diwrnod arall yn gweithio ar ddatblygiad swyddfa newydd nodedig Ffordd y Brenin yng nghanol Abertawe.

Ar hyn o bryd mae'n gosod y sianel drydanol fewnol, a fydd yn cael ei chuddio o fewn y strwythur concret ar draws dwy lefel islawr a phum llawr y datblygiad. Mae'r prosiect bellach yn cychwyn ar y cam nesaf ac mae'r gwaith a'r cynnwys gweladwy mewnol a'r weirio newydd ddechrau, bydd Seb nawr yn rhan o'r gwaith hwn. Bydd yn gosod y ceblau trwy'r sianeli y mae wedi'u gosod o'r blaen a bydd hyn yn ychwanegu dimensiwn newydd.

Dyma brofiad go iawn cyntaf Seb o safle adeiladu mawr ac mae wedi ennill gwell dealltwriaeth o gymhlethdodau'r gwaith adeiladu, yr iechyd a'r diogelwch sydd ei angen ar safle, ond yn bwysicach fyth, pa mor hanfodol yw ei rôl wrth edrych ar adeilad gorffenedig. Er bod ei dasg bresennol ar y safle sef gosod sianeli yn dasg feichus, ni fydd yn weladwy unwaith y bydd y prosiect yn cael ei drosglwyddo. Bydd prentisiaeth Seb yn para 4 blynedd, ac ar ôl cwblhau'r prosiect hwn, bydd yn symud ymlaen i weithio ar brosiect CMBE arall nes y bydd yn cael cymeradwyaeth gan y darparwr hyfforddiant JTL.



Stori Amelia Swyddog Prosiect Graddedig yn Celtic Sea Power Partner darparu ym Mhrosiect Ardal Forol Doc Penfro

Graddiodd Amelia o Brifysgol Abertawe gyda BEng mewn Peirianeg Sifil yn 2020 ac yna treuliodd flwyddyn yn gweithio ym maes dylunio peirianeg fel Peiriannydd Strwythurol mewn ymgynghoriaeth fach sy'n arbenigo mewn adeiladu domestig.

Yna penderfynodd Amelia ddechreuedd i'r brifysgol ac astudio ar gyfer MSc mewn Peirianeg Arfordirol ym Mhrifysgol Plymouth. Dri mis cyn graddio o'i gradd Meistr dechreuodd ei swydd raddedig yn Celtic Sea Power, lle ysgrifennodd ei thraethawd hir ar gyflenwad ynni adnewyddadwy hybrid i gymunedau'r ynys.

Prif nod ei swydd raddedig yw adeiladu model o'r holl ddefnydd o ynni yn yr ardal, a sut y gallai hyn newid yn y cyfnod cyn targedau Sero Net. Mae'n golygu siarad â diwydiannau fel porthladdoedd ac astudio eu defnydd a'u gweithrediadau ynni cyfredol. Mae hi hefyd yn edrych ar sut mae cynhyrchu ynni yn debygol o newid a sut y gellir gwneud y mwyaf o adnoddau naturiol.

Mae Amelia yn gweithio tuag at fod yn beiriannydd siartredig yn Celtic Sea Power ac mae'n gobeithio y bydd ei rôl bresennol yn ei helpu i wneud hyn. Byddai hi wrth ei bodd yn gweld technolegau fel ynni'r tonnau a'r llanw yn dod yn fwy masnachol ac yn gobeithio y bydd hi'n gallu gweithio ar eu hintegreiddio nhw i'n system ynni. Ei nod hirdymor yw gweithio ar brosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach, gan bweru porthladdoedd neu ynysoedd bach!

Mae ymuno fel myfyriwr graddedig wedi rhoi cyfle i Amelia arwain ar brosiectau ac mae wedi cael profiad gwych mewn cwmni sydd mewn gwirionedd yn mynd i wneud gwahaniaeth yn y dyfodol.

“ Fy nghyngor i raddedigion sy'n chwilio am swydd i raddedigion fyddai ystyried arbenigo mewn pwnc os ydych chi'n bwriadu gwneud gradd Meistr - Roedd fy nghwrs i mewn Peirianeg Arfordirol! Defnyddiwch LinkedIn wrth chwilio am swydd gan nad oes gan lawer o gwmnïau gynlluniau i raddedigion ond byddant yn dal i gymryd graddedigion, ac os oes cwmni y mae gennych ddi-ddordeb ynddo, anfonwch e-bost atynt! Peidiwch â bod ofn gwneud cais am swyddi nad ydych chi'n credu eich bod chi'n gymwys ar eu cyfer! ”



Gwersi a Ddysgwyd o'r Portffolio

Mae gan y Portffolio ystod eang a manwl o ryngweithiadau â llawer o bartneriaid ar draws y rhanbarth yn y sectorau preifat a chyhoeddus. Mae'r rhyngweithiadau hyn yn creu llawer o brofiadau ac yn creu adborth a gwersi ymhlith y partneriaid cyswllt.

Mae cyfoeth o wybodaeth a sylwadau yn cael eu cadw'n ganolog yn Swyddfa'r Portffolio trwy'r Cofnod Gwersi a Ddysgwyd a thrwy rannu arfer gorau gyda phartneriaid rhanbarthol. Mewn cyd-

destun ehangach, mae'r Fargen Ddinesig hefyd yn rhannu profiadau ac arfer gorau yn genedlaethol gyda Bargeinion Dinesig a Thwf eraill ar bob cyfle.

Ar ôl gweithredu'r dull hwn ers 2020, dyma ychydig o wersi allweddol a ddysgwyd isod. Rydym bob amser yn gofyn am adborth, felly rydym yn croesawu eich barn am sut mae Bargaion Ddinesig Bae Abertawe yn perfformio ac yn rhyngweithio. E-bost: SBCD@sirgar.gov.uk i rannu eich barn.

Lleoliad: Mae trefniadau llywodraethu clir a diffiniedig yn hanfodol er mwyn gweithredu'n llwyddiannus.	Argymhelliad: Mae angen sefydlu a chymeradwyo trefniadau llywodraethu cadarn ar lefel Portffolio ar y dechrau.
Lleoliad: Gall newid personél allweddol achosi diffyg parhad.	Argymhelliad: Cyflwyno trosglwyddiadau ac anwythiadau i'r Fargen Ddinesig ar gyfer personél newydd, gyda chymorth cyfarfodydd ffurfiol a gweithredu prosesau.
Lleoliad: Diffyg hyblygrwydd wrth adolygu ac addasu cyllidebau	Argymhelliad: Y gallu i addasu allbynnau prosiect i sicrhau'r buddion mwyaf posibl
Lleoliad: Cyfarfodydd a chefnogaeth Swyddfa Rheoli Portffolio effeithiol yn cael eu cydnabod.	Argymhelliad: Swyddfa Rheoli Portffolio gwbl weithredol mewn lle i gefnogi, arwain a chynghori ar draws y Portffolio ar Lywodraethu, polisiâu a gweithdrefnau.
Lleoliad: Ymwybyddiaeth a rhannu wybodaeth am gyflawniadau.	Argymhelliad: Is-grwpiau yn cael eu sefydlu lle mae rhaglenni / prosiectau yn dod at ei gilydd i rannu arfer gorau a gwersi a ddysgwyd.
Lleoliad: Mae Uwch-Swyddogion Cyfrifol a benodir gyda rolau a chyfrifoldebau diffiniedig yn hanfodol i gyflawni amcanion cyflawni llwyddiannus.	Argymhelliad: Parhau i ddiffinio rolau, penodi Uwch-swyddogion Cyfrifol yn gynnar, darparu hyfforddiant a chymorth i Uwch-swyddogion Cyfrifol ac ar yr un pryd, sicrhau bod Uwch-swyddogion Cyfrifol yn cael eu cynrychioli ar y bwrdd gweithredol.
Lleoliad: Mae ymchwil a datblygu ac arloesi yn hanfodol i lwyddiant Bargaion Ddinesig Bae Abertawe.	Argymhelliad: Mae angen cydlynu rhodfeydd a mynediad at ffrydiau cyllido Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau'r buddion rhanbarthol mwyaf posibl.
Lleoliad: Er mwyn gallu cefnogi'r gwaith o gyflawni rhai agweddau o'r rhaglen, defnyddiwyd adnoddau presennol, mae hyn wedi profi i fod yn heriol.	Argymhelliad: Annog partneriaid i benodi adnoddau penodol yn unol ag anghenion, pwysau a blaenoriaethau mewnol.
Lleoliad: Mae trefniadau Llywodraethu Cadarn sy'n esblygu'n parhau i sicrhau cysondeb o ran adroddiadau, prosesau a gweithdrefnau.	Argymhelliad: Adrodd wedi'i ymgorffori mewn Byrddau Llywodraethu i sicrhau bod Risgiau a Materion yn amlwg ar draws y Portffolio, fod buddion yn cael eu cyflawni, gweithgarwch sicrwydd, caffael a newid. Defnyddir Meddalwedd PM i sicrhau cysondeb o ran adroddiadau.

“

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Bargaion Ddinesig Bae Abertawe i gyflawni prosiectau uchelgeisiol a fydd yn dod â manteision economaidd sylweddol i'r rhanbarth ac i Gymru. Yn wyneb ansicrwydd economaidd mawr, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gefnogi gweledigaeth glir ar gyfer twf rhanbarthol cryfach sy'n cefnogi gwell swyddi yn niwydiannau'r dyfodol. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddysgu gwersi ac adeiladu ar y cynnydd a wnaed i sicrhau ein uchelgeisiau a rennir ar gyfer y rhanbarth.

Vaughan Gething

Gweinidog Economi Cymru, Llywodraeth Cymru

”



“

Mae'n wych gweld cynnydd sylweddol yn y gwaith o gyflawni prosiectau a gefnogir gan Fargaion Ddinesig Bae Abertawe. Mae buddsoddiad Llywodraeth y DU yn talu ar ei ganfed ac rydym bellach yn gweld sut mae'r Portffolio yn cefnogi twf economaidd. Gyda chymaint o brosiectau a rhaglenni cyffrous ar y gweill ar draws y rhanbarth mae manteision gwirioneddol a phendant sy'n effeithio ar fusnesau a phreswylwyr lleol ledled De-orllewin Cymru.

Yn benodol, mae hyrwyddo Bargaion Ddinesig Bae Abertawe yn y sectorau Ynni a Gweithgynhyrchu Uwch yn sail i'r rhesymeg o gyllid ar gyfer cais y Porthladd Rhydd Celtaidd, sy'n cwmpasu Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot. Mae ffrydiau cyllid Llywodraeth y DU ar gyfer Bargaion Twf, y Cronfeydd Ffyniant Gyffredin a'r Porthladd Rhydd yn cefnogi swyddi a ffyniant i'r rhanbarth am genedlaethau i ddod.

David TC Davies

Ysgrifennydd Gwladol Cymru

”

Mae'r Portffolio wedi gweld cynnydd sylweddol o ran y manteision sy'n cael eu darparu hyd yma ac yn arbennig dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys:

£ cyfanswm buddsoddiad o **£271m** hyd yma, **12%** o gyfanswm y targed buddsoddi wedi'i sicrhau gan fuddsoddiad gwerth **£100m+** gan y Sector Preifat yn 2022-23

👥 **9,200** o wythnosau hyfforddiant wedi'u darparu ar draws gweithgarwch adeiladu'r Portffolio hyd yma gydag o leiaf **1,200** o wythnosau wedi'u darparu yn 2022-23

👥 O leiaf **550+** o gyfleoedd cyflogaeth Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)

👥 **100** o gyfleoedd prentisiaeth Cyfwerth ag Amser Llawn wedi'u creu neu'n parhau o ganlyniad i weithgarwch adeiladu

📐 **47,380** metr sgwâr o arwynebedd llawr wedi'i gwblhau ar draws y Portffolio

⚡ **200** o gartrefi Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer wedi'u darparu yn 2022-23 gan wireddu buddsoddiad o £42m

🤝 **200+** o gcontractau wedi'u dyfarnu i gwmnïau o Gymru

£ **3 allan o 35** prosiect wedi'u cwblhau gyda chyfanswm buddsoddiad o **£113m**

£ **17 o'r 35** prosiect yn cael eu cyflawni a fydd yn darparu **cyfanswm buddsoddiad o £415m** ar ôl eu cwblhau

£ **15 o'r 35** o brosiectau wedi'u cymeradwyo ac yn gweithio drwy weithgareddau cyn cychwyn. Ar ôl eu cwblhau, bydd y prosiectau hyn yn darparu'r **£711m** sy'n weddill o fuddsoddiad rhagweladwy'r Fargen Ddinesig.

£ Bydd contractau adeiladu gwerth oddeutu **£50m** yn cael eu dyfarnu drwy 2023-2024

£ Dechrau cyflwyno cadwyn gyflenwi ranbarthol Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer trwy flwyddyn ariannol 2023-24 gan arwain at ddechrau buddsoddiad pellach o **£383m**

*Mae rhagor o swyddi wedi'u creu, a byddant yn cael eu cadarnhau ymhen 12-24 mis wedi i'r deiliad ddechrau yn y swydd.

Mae'r portffolio yn helpu i fynd i'r afael â lleihau carbon a'i gefnogi gyda'r nod hirdymor o gyrraedd targed Carbon Sero Net Cymru erbyn 2050 ac mae'n cyd-fynd â Cymru Sero Net – Cyllideb Carbon 2 (2021-25), Llywodraeth Cymru.

Bydd pob Sefydliad Cyflawni Arweiniol yn sicrhau bod cyfleusterau'n cael eu caffael, eu hadeiladu a'u gweithredu yn unol â'r gofynion a nodir mewn polisiau a strategaethau cenedlaethol a lleol.

Mae'r Portffolio yn gosod y rhanbarth ar flaen y gad o ran Ynni a Gweithgynhyrchu Clyfar a bydd yn cyfrannu drwy:

- Cyflawni tri phrosiect sy'n gysylltiedig ag ynni yn llwyddiannus: Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer, Ardal Forol Doc Penfro a Chefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel
- Creu arwynebedd llawr oddeutu 80k+m2 sy'n bodloni safonau rhagoriaeth BREEAM
- Creu o leiaf 5,000 o swyddi ar draws y sectorau ynni ac ynni adnewyddadwy
- Creu o leiaf £620m o Werth Ychwanegol Gros yn y sectorau ynni ac ynni adnewyddadwy
- Denu o leiaf £630m o gyfanswm buddsoddiad yn y sectorau ynni ac ynni adnewyddadwy
- Darparu o leiaf 6,000 o gyfleoedd sgiliau ar gyfer y sectorau ynni ac ynni adnewyddadwy
- Creu canolfan ragoriaeth ranbarthol mewn ynni adnewyddadwy
- Tyfu 2 gadwyn gyflenwi yn y broses osod, gweithgynhyrchu, a gweithredu technolegau glas a gwyrdd drwy Ardal Forol Doc Penfro a Chartrefi yn Orsafoedd Pŵer.
- Gwella cysylltedd digidol trwy ffeibr llawn, 5G a Rhyngwyd Pethau (IoT) i ddiogelu'r economi ddigidol ar draws y rhanbarth at y dyfodol.

Enghraifft o'r arfer hwn ar waith yw Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe, sy'n rhan o raglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel. Dan arweiniad Cyngor Castell-nedd Port Talbot, maent yn gosod targedau blaengar ar gyfer perfformiad ynni ac yn grymuso'r tîm dylunio trwy roi'r rhyddid i:

- Canolbwyntio ar adeiladwaith adeiladu – aerglos, optimeiddio cyfeiriadedd a màs
- Lleihau'r defnydd o ddeunydd – gwneud mwy gyda llai
- Cynyddu effeithlonrwydd technolegau
- Efelychu defnydd o offer a deiliadaeth
- Defnyddio màs thermol o lorïau i leihau llwyth gwres
- Gweithredu strategaeth fesur gadarn

Y canlyniad oedd darparu'n llwyddiannus y cyfleuster masnachol 'gweithredu'n effeithlon o ran ynni' cyntaf sydd wedi ennill gwobrau yng Nghymru. Cynhyrchu mwy o ynni nag y mae'n ei ddefnyddio.

Cyflawnwyd hyn drwy ddefnyddio meddalwedd modelu BIM 360 ar y cyd, a arweiniodd hefyd at::

- Lleihau gwastraff, gan gynhyrchu dim ond 2.4 tunnell/100m2 o'i gymharu â phrosiect nodweddiadol yn y DU sy'n cynhyrchu 11 tunnell/100m2
- Cafodd 59 tunnell o wastraff adeiladu eu hailgylchu/adfer (BREEAM Rhagorol)
- 96% o wastraff adeiladu wedi'i ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi
- Gwelliant o 42.12% ar y defnydd o ddŵr net trwy osod offer ymolchfa effeithlon
- Trwy gynllunio diwedd oes, gellir ailgylchu 92% o adeiladwaith adeilad.



Sgiliau a Thalentau: Llwyddiant Prosiect Peilot



Dros y 12 mis diwethaf mae'r rhaglen Sgiliau a Thalent wedi cymeradwyo 9 prosiect peilot a fydd yn paratoi pobl ifanc ar gyfer swyddi sydd ar ddod ledled y rhanbarth.

Arian Cyfatebol y Sector Cyhoeddus o £712,83

Arian Cyfatebol y Sector Preifat £439,000

Buddsoddiad Prentisiaethau Preifat o £536,764



Pasbort i Gyflogaeth Sir Benfro

Sector: Carbon Isel, Technolegau Adnewyddadwy

Bydd y prosiect peilot cyntaf i gael ei gymeradwyo a'i ddarparu yn dwyn ynghyd myfyrwyr a chwmnïau sy'n arbenigo yn y sector ynni adnewyddadwy, gan greu fframwaith a arweinir gan Ynni Glas-Gwyrdd. Bydd yn paratoi talent ifanc ar gyfer cyfleoedd gwaith lleol sydd ar y gweill a gyrfa yn y sector ynni adnewyddadwy. Mae'r prosiect sydd eisoes wedi ennill cydnabyddiaeth allanol drwy ennill gwobr, yn cael ei addysgu ar y cyd rhwng diwydiant, ysgolion a choleg Sir Benfro.

Codi Ymwybyddiaeth Carbon Isel a Sero Newydd

Sector: Carbon Isel, Adeiladu, Technolegau Adnewyddadwy

Dan arweiniad Cyfle, sy'n arbenigwyr Sgiliau Adeiladu, nod y prosiect rhanbarthol hwn yw codi ymwybyddiaeth o dechnolegau carbon sero a charbon isel yn y sector adeiladu drwy gyflwyno hyfforddiant lleihau carbon sy'n berthnasol i'r diwydiant. Bydd yn cyflwyno 4 cwrs newydd a bydd yn gweithio gyda phrentisiaid a hyfforddeion gan greu 100 o brentisiaid a rennir a 500 o brentisiaid traddodiadol, ynghyd â chyfranogiad gan 1,000 o ddisgyblion ysgol ym mlwyddyn 10 ac 11.



Hyfforddiant Technolegau 5G

Sector: Digidol

Wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r diffyg ymwybyddiaeth o 5G, bydd y peilot hwn yn gweithio gyda diwydiant i sicrhau bod y rhanbarth yn deall cyfleoedd a photensial 5G yn llawn. Gydag amrywiaeth o hyfforddiant o lefelau rhagarweiniol i lefelau uwch ar draws ystod eang o sectorau, bydd yn helpu i gynhyrchu arloesedd ac yn sbarduno buddsoddiad pellach i'r rhanbarth.



Sgiliau'r 21ain Ganrif

Sector: Adeiladu, Sero Net, Iechyd a Llesiant

Bydd y cynllun peilot hwn, sy'n cael ei gyflwyno gan yr arbenigwyr adeiladu Bouygues UK, yn datblygu profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer 40 o ddysgwyr ym mlwyddyn 6, 120 o ddysgwyr ym mlynnyddoedd 10 a 12 a 1,000 o ddysgwyr ym mlynnyddoedd 7, 8 a 9. Bydd ffocws penodol ar weithio tuag at sero-net yn y diwydiant adeiladu a'r sgiliau sydd eu hangen i ateb her yr argyfwng hinsawdd.



Sgiliau Cymru Sero Net

Sector: Ynni a Gweithgynhyrchu Clyfar, Technolegau Adnewyddadwy.

Bydd y prosiect peilot hwn, sydd wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r bylchau sgiliau gwyrdd yn y sector preifat a chyhoeddus mewn diwydiannau sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu, hefyd yn gwella gwybodaeth a sgiliau ac yn creu llwybrau gyrfa i gefnogi Cymru i gyflawni ei nodau sero net. Wedi'i gyd-ddylunio gan academyddion a'r diwydiant ac ar y cyd â Chlwstwr Diwydiannol De Cymru a'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol, bydd hyn yn cael ei gyflwyno i ddysgwyr uwchradd ac ôl-16 ac mae'n unigryw gan fod y cynnwys wedi'i deilwra i arferion gwaith go iawn, bob dydd.



Sgiliau Gweithgynhyrchu Batri (BMS)

Sector: Nod Ynni a Gweithgynhyrchu Clyfar, Technolegau Adnewyddadwy, Sgiliau Newydd,

Technoleg Ddigidol yw sefydlu fframwaith o gyrsgiau datblygiad proffesiynol byr sydd wedi'u cynllunio i ymateb i fwllch sgiliau mewn gweithgynhyrchu batris a diwydiannau cysylltiedig. Bydd y prosiect peilot hwn, sy'n cael ei gyflawni ar y cyd â sefydliadau'r sector preifat, yn rhoi sylw i'r bylchau sgiliau mewn gweithgynhyrchu batris a'r gadwyn gyflenwi drwy ddarparu hyfforddiant, gwella sgiliau, ac ailsgilio i fyfyrwyr medrus iawn a'r gweithlu lleol. Bydd 25 o unigolion yn derbyn hyfforddiant sgiliau uwch gydag un fframwaith newydd yn cael ei greu.



Sero Net: How Green Was My Valley?

Sector: Ynni a Gweithgynhyrchu Clyfar, Technolegau Adnewyddadwy

Bydd y peilot hwn yn meithrin carfan o athrawon i weithlu gwybodus ac effeithiol sy'n defnyddio sgiliau digidol a gemau i hyfforddi disgyblion am newid yn yr hinsawdd, pwysigrwydd sero net a'r cyfleoedd o'r economi gylchol. Caiff ei gyflwyno mewn arddull 'hyfforddi'r hyfforddwr' i athrawon a fydd wedyn yn cyflwyno'r wybodaeth yn ôl i'r ystafell ddosbarth.



Meithrin Iechyd a Llesiant mewn byd digidol

Sector: Digidol, Iechyd a Llesiant

Gan dargedu ysgolion yn ninas Abertawe yn benodol, dan arweiniad Ysgol Gyfun Tregwyr, bydd hyn yn addysgu disgyblion 3-16 oed am y sectorau gwyddor bywyd, iechyd a chwaraeon gan gynnwys datblygu technolegau newydd i gefnogi ffordd iach a chytbwys o fyw.



Gyrfaoedd yn y Sector Digidol

Sector: Adeiladu, Peirianeg, Celfyddydau Digidol a Diwydiannau

Gan ganolbwyntio ar yr angen am sgiliau digidol gwell yn y diwydiant creadigol ar gyfer dysgwyr cyn-16 ac ôl-16, mae'r prosiect hwn yn cael ei ddarparu gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot a bydd yn gwella sgiliau ac yn cynyddu dysgu i oddeutu 2,070 o unigolion yn ogystal â chreu llwybrau gyrfa mewn ysgolion cynradd.

“ Mae'r Rhaglen Sgiliau a Thalent yn creu prosiectau peilot pwrpasol, arloesol a chyffrous sy'n cynnig atebion rhanbarthol sy'n mynd i'r afael â'r gofynion hyfforddi ar gyfer prosiectau'r Fargen Ddinesig a phartneriaid yn y diwydiant. Wrth i'r prosiectau peilot symud i'r cam cyflawni mae'n wych gweld y buddsoddiad amhrisiadwy hwn yn helpu i gefnogi anghenion sgiliau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol ledled Cymru. ”

Edward Morgan
Cadeirydd Y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau
Ranbarthol, De-orllewin Cymru

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r portffolio wedi ennill cydnabyddiaeth drwy nifer o wobrau mawreddog a achredwyd gan y diwydiant.



Prosiect Peilot Cyrchfan Ynni Adnewyddadwy

Enillodd y prosiect peilot Sgiliau a Thalent hwn wobwr genedlaethol am ynni gwynt ar y môr 'Offshore Wind Energy Skills' yng Ngwobrau Ynni Gwynt ar y Môr renewables UK 2022 ynghyd â chyrraedd y rownd derfynol yn seremoni Gwobrau STEM Cymru 2022.



Pentre Awel

Mae Pentre Awel, sy'n cael ei gyflawni gan Bouygues UK, wedi ennill Gwobr Gynaliadwyedd Bouygues UK 2022 drwy arbed dros 77,600kg o Garbon Deuocsid rhag cael ei allyrru ar y safle dros gyfnod o 15 wythnos.



Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe

Mae rhan o raglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel, wedi ennill tair gwobr uchel eu proffil yn 2022 am ei chymwysterau amgylcheddol. Y gwobrau hyn oedd Gwobr Prosiect Eiddo Masnachol y Flwyddyn yng Ngwobrau Diwydiant Adeiladu Prydain (BCI) 2022, Gwobr Sero Net yng Ngwobrau Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW) 2022 a'r Wobr Gynaliadwyedd yng Ngwobrau Eiddo Insider Cymru 2022.



Porthladd Aberdaugleddau

Mae'r Porthladd, sy'n bartner cyflawni strategol ym mhrosiect Ardal Forol Doc Penfro, wedi ennill Gwobr Cynaliadwyedd Porthladd yng Nghynhadledd Cymdeithas Porthladdoedd Prydain (BPA) 2022. Cafodd y porthladd ei gydnabod gan Gymdeithas Porthladdoedd Prydain am ei nodweddion cynaliadwyedd a'i ymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol yn y porthladd a'r cymunedau cyfagos.



71/72 Ffordd y Brenin

Yn rhan o brosiect Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau, roedd y prosiect adeiladu hwn wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobrau Cynaliadwyedd Bouygues UK 2022.

“ Mae'n wych gweld cynifer o'n prosiectau'n cael eu cydnabod drwy brif wobrau'r diwydiant. Mae'n dyst i dimau a phartneriaid y prosiect ledled y rhanbarth ac yn rhoi hyder i ni ein bod yn chwyldroadol ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yn ein rhanbarth, yr amgylchedd a'r economi. Yn ogystal â'r gwobrau hyn, yn ddiweddar mae Abertawe wedi'i henwi'n un o bedair dinas orau'r DU yng ngwobrau Estates Gazette 2022, sy'n cydnabod ymhellach y gwaith adfywio a datblygu economaidd enfawr sy'n digwydd yn nghanol ein rhanbarth.

Clr Rob Stewart
Cadeirydd y Cyd-bwyllgor

Amcangyfrifir mai sefyllfa fuddsoddi gyffredinol y portffolio yw £1,256.41 miliwn dros gylch bywyd 15 mlynedd y portffolio, fel y crynhowyd isod. Cyfanswm buddsoddiad Bagen Ddinesig Bae Abertawe (SBCD) o bob ffynhonnell oedd £262.15m, ac roedd £26.91m ohono yn fuddsoddiad sector preifat ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022-23.

Mae'r hinsawdd economaidd yr ydym yn gweithredu ynddi yn parhau i gyflwyno heriau o ran darparu'r Portffolio. Mae nifer o ffactorau macro-economaidd, gan gynnwys argaeledd adnoddau a recriwtio, prisiau ynni, costau adeiladu, pwysau chwyddiant, a phandemig COVID wedi arwain at lithriad o ran cyflenwi a phwysau costau cynyddol dros y tair blynedd diwethaf.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r holl brosiectau a rhaglenni yn mynd rhagddynt ac mae'r holl bartneriaid wedi ymrwmo'n llwyr i gyflawni eu mentrau Bagen Ddinesig Bae Abertawe. Ym mlwyddyn ariannol 2022/23, buddsoddodd y Fargen Ddinesig £83 miliwn ar gynllunio, caffael,


adeiladu a gweithrediadau ar draws mwyafrif y naw prosiect a rhaglen a oedd yn rhan o'r Portffolio. Bydd buddsoddiadau mawr pellach drwy gaffael ac adeiladu'n digwydd rhwng 2023/24 – 2028/29.

Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn ymgymryd â monitro gofalus, lliniaru a datrys risgiau, materion a chyfathrebu darpariaeth a phroffiliau ariannol yn barhaus gyda'r holl randdeiliaid. Mae hyn yn helpu i bennu'r effaith y mae'r hinsawdd macro-economaidd yn ei chael ar gyflawni'r Portffolio.

Derbyniodd y Fargen Ddinesig ddyfarniad cyllid pellach yn 2022/23 gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan ryddhau pumed swm flynyddol o gyllid y Fargen Ddinesig. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o £100m wedi'i dynnu i lawr ers dechrau'r Portffolio. Mae'r cyllid diweddaraf a dderbyniwyd gan y Fargen Ddinesig yn cynnwys grant carlam Llywodraeth y DU a fydd nawr yn cael ei ddyfarnu dros gyfnod o ddeng mlynedd, yn hytrach na'r cyfnod gwreiddiol o bymtheg mlynedd.

Proffil Darogan Buddsoddiad Blynyddol

Cydran Fuddsoddi	Bl 0-4	Bl 5	Bl 6	Bl 7	Bl 8	Bl 9	Bl 10	Bl 11	Bl 12	Bl 13	Bl 14	Bl 15	Cyfanswm
	2017-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	
	(£m)												
Cyfalaf / Refeniw													
Buddsoddiad Cyfalaf	154.16	79.80	183.18	131.59	184.37	189.45	135.53	129.48	0	0	0	0	1,187.55
Buddsoddiad Refeniw	25.02	3.18	14.61	13.74	9.28	0.35	0.42	0.43	0.45	0.46	0.47	0.46	68.86
Cyfanswm	179.18	82.97	197.79	145.33	193.65	189.79	135.95	129.91	0.45	0.46	0.47	0.46	1,256.41
Cyllid													
Buddsoddiad y Fargen Ddinesig	32.87	23.53	80.61	75.20	18.12	5.42	0	0	0	0	0	0	235.75
Buddsoddiad y Sector Cyhoeddus	126.77	52.07	62.55	17.23	55.43	51.48	16.47	0	0	0	0	0	382.00
Buddsoddiad y Sector Preifat	19.54	7.37	54.63	52.90	120.10	132.89	119.48	129.92	0.45	0.46	0.46	0.46	638.66
Cyfanswm	179.18	82.97	197.79	145.33	193.65	189.79	135.95	129.92	0.45	0.46	0.46	0.46	1,256.41



Bwrdd Gweithredu Bargeinion Dinesig a Thwf Cymru

Mae hwn yn Fwrdd ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am roi sicrwydd a chynghor i'r Cyd-gadeiryddion ynghylch materion strategol a gweithredol, rhyddhau cyllid i'r Portffolio, goruchwyllo a monitro prosiectau, a threfniadau llywodraethu a sicrwydd effeithiol.

Cydbwyllgor

Y Cadeirydd, y Cynghorydd Rob Stewart
Arweinydd Cyngor Abertawe

Mae'r Cydbwyllgor yn cynnwys pedwar Arweinydd yr Awdurdodau Lleol rhanbarthol, yn ogystal ag uwch-gynrychiolwyr o bob un o'r wyth prif sefydliad partner, ac mae'n dal Bwrdd y Rhaglen (Portffolio) a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i gyfrif ac yn gyfrifol drwyddi draw am graffu a chymeradwyo.

Bwrdd Strategaeth Economaidd (ESB)

Cadeirydd, Chris Foxall
Corff cynghori sector preifat yw hwn sy'n gweithredu fel llais busnes. Mae'r ESB yn darparu gwasanaethau strategol ar gyfer y Fargen Ddinesig trwy gyngor i'r Cydbwyllgor ar faterion yn ymwneud â'r ranbarth.

Bwrdd y Rhaglen (Portffolio)

Cadeirydd, Wendy Walters
Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin
Bydd Bwrdd y Rhaglen, sy'n gyfrifol am oruchwyllo gweithrediadau'r Fargen Ddinesig, yn adolygu newidiadau i achosion busnes a datblygiadau i'r portffolio wrth iddo fynd yn ei flaen. Mae'n cynnwys pennaeth neu uwch-gynrychiolydd pob un o'r wyth sefydliad partner.

Cydbwyllgor Craffu

Cadeirydd, y Cynghorydd Rob James
Aelod Etholedig o Gyngor Sir Caerfyrddin
Mae'n cynghori, yn herio ac yn cefnogi'r Cydbwyllgor, ac mae'n cynnwys tri aelod etholedig o bob un o'r pedwar awdurdod lleol.

Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gyfrifol am weinyddu'r Portffolio o ddydd i ddydd ac mae mewn cyswllt rheolaidd â thimau ehangach y Fargen Ddinesig ac aelodau'r bwrdd.



Wedi gadael yn Tachwedd 2022
Mae Y Rheolwr Cyllid sy'n gyfrifol i'r Swyddog Adran 151

Cefnogir Bargein Ddinesig Bae Abertawe hefyd gan Swyddog Adran 151 Cyngor Sir Caerfyrddin a Swyddog Monitro Cyngor Abertawe fel rhan o swyddogaethau statudol y portffolio.

Chris Moore


Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin a Swyddog Adran 151 Bargein Ddinesig Bae Abertawe
Mae Chris yn gyfrifol am weinyddu busnes y Cydbwyllgor o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac mae'n gyffredinol gyfrifol am weinyddiaeth ariannol y Fargen Ddinesig.

Tracey Meredith


Swyddog Monitro Cyngor Sir Abertawe a Swyddog Monitro Bargein Ddinesig Bae Abertawe
Mae Tracey yn gyfrifol am sicrhau llywodraethu da a chynnal y safonau moesegol uchaf, gan sicrhau cyfreithlondeb trefniadau a sicrhau y cydymffurfir â Chytundeb y Cydbwyllgor.

Trwy gydol 2022-23 mae'r Portffolio wedi nodi 4 risg Portffolio newydd. Mae hyn yn adlewyrchu bod y Portffolio yn cael ei gyflawni'n llawn gyda llawer o fesurau lliniaru yn cael eu gweithredu i leihau cyfraddau risg.

Risgiau wedi'u Lliniaru Mawrth 2022



Risgiau wedi'u Lliniaru Mawrth 2023



- Coch
- Ambr
- Gwyrdd
- Heb eu lliniaru

Risgiau coch y Portffolio ar gyfer 2022-23 oedd:

- Nid yw cyfraniad/au cyllido o'r sector preifat wedi'u gwreiddu yn unol ag amcanestyniadau'r achos busnes.
- Cynyddu mewn costau adeiladu.
- Diweddariad Llywodraeth Cymru 2021 o ran TAN 15, risg llifogydd i ddatblygiadau, erydiad arfordirol a chynlluniau cynllunio rhag llifogydd cysylltiedig.
- Llithriad mewn buddsoddiad yn ystod y flwyddyn.
- Llithriad wrth gyflawni yn erbyn cerrig milltir allweddol.
- Prosiectau a rhaglenni yn darparu'r holl allbynnau a chanlyniadau achosion busnes.
- Pwysau ar y diwydiant adeiladu i fodloni galw'r Fargen Ddinesig ac ymarferiadau caffael eraill y sector cyhoeddus.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r portffolio wedi datblygu Asesiad o'r Effaith ar Adeiladu ymhellach, o ganlyniad i'r pwysau economaidd cynyddol ar weithgaredd adeiladu a phrisiau ynni yn dilyn yr adferiad ar ôl COVID-19 a rhyfel Wcraïn. Mae monitro agos wedi nodi cynnydd sylweddol mewn rhai costau ar weithgarwch adeiladu sydd yn ei dro wedi gofyn am fuddsoddiad ychwanegol mewn rhai achosion gan sefydliadau cyflenwi arweiniol.

Wrth symud ymlaen, o Chwarter 1 2023-24, bydd adroddiadau Asesiad o Effaith Adeiladu yn fwy amlwg, gyda'r nod o nodi a chau bylchau cyllido ar draws y portffolio drwy fesurau lliniaru wedi'u cofnodi a'u monitro. Dylai hyn ddiogelu darpariaeth y Portffolio, drwy nodi materion a phenderfyniadau cyn gynted â phosibl fel bod y Portffolio yn gwreiddu'r buddion a fwriedir fel y cynlluniwyd.

Adolygiadau Gateway

Mae Portffolio a phrosiectau'r Fargen Ddinesig yn ddarostyngedig i Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth, a hwylusir gan Hwb Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau i sicrhau bod y portffolio a'r prosiectau a rhaglenni cysylltiedig yn symud ymlaen yn llwyddiannus ac yn cael eu cyflawni'n gyffredinol.

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi cynnal adolygiad strategol pellach o'r Portffolio ym mis Gorffennaf 2022 ynghyd ag adolygiadau ar raglen

Sgiliau a Thalentau, Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer a Glannau Abertawe. Datblygwyd amserlen o adolygiadau sydd ar ddot ar gyfer y 12 mis nesaf, gan gynnwys adolygiad Portffolio blynyddol a gynlluniwyd ar gyfer Gorffennaf 2023.

Mae'r tabl isod yn dangos yr adolygiadau diweddaraf a gynhaliwyd ar draws y portffolio ynghyd â'u sgôr Asesu Hyder Cyflenwi (DCA) a'r dyddiad amcangyfrifedig ar gyfer yr adolygiad sicrwydd nesaf.

Portffolio/Rhaglen/Prosiect	Stage	Latest Review Date	DCA Rating	Next Planned
Portffolio	0	Gorffennaf 2022		Gorffennaf 2023
Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer	PAR	Tachwedd 2022		Hydref 2023
Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel	PAR	Mehefin 2020		Rhagfyr 2023
Pentre Awel	PAR	Medi 2020		Hydref 2023*
Seilwaith Digidol	0	Hydref 2020		Hydref 2023*
Ardal Forol Doc Penfro	PAR	Chwefror 2020		Medi 2023
Yr Egin	5	Tachwedd 2021		Tbc 2023
Glannau ac Ardal Ddigidol Abertawe	PAR	Tachwedd 2022		Medi 2023
Sgiliau a Thalentau	0	Ionawr 2023		Tbc 2025
Campysau	PAR	Awst 2021		Ionawr 2024

*Amcangyfrif

Argymhellion Adolygiad Gateway y Portffolio 2022


Rhodddwyd sgôr Ambr/Gwyrdd yn adolygiad sicrwydd Gateway 2022 ar gyfer y Portffolio, a chafwyd 4 argymhelliad - mae'r rhain i gyd wedi cael eu cwblhau. Roedd yr argymhellion yn ymwneud â'r angen i ddiweddarau achosion busnes rhaglenni


a phrosiectau, monitro costau a phroffiliau budd ar draws y portffolio, mynediad i brosiectau i wybodaeth a data'r Swyddfa Rheoli Portffolio a'r defnydd o iaith glir plaen mewn adroddiadau llywodraethu.



Marchnata a Chyfarthrebu

Mae gweithgareddau marchnata a chyfarthrebu sylweddol wedi digwydd dros y 12 mis diwethaf gan gynnwys:


 Diweddariad **Cynllun Cyfathrebu a Marchnata y Portffolio** yn cynnwys negeseuon allweddol, rhanddeiliaid, brandio, sianeli a chynllun gweithgareddau.


 **184** o grybwylliau cadarnhaol yn **y wasg leol a chenedlaethol** gan gynnwys teitlau ar-lein ac argraffedig, ar draws pob prosiect a rhaglen.


 Cyrhaeddiad Facebook o **63,641** a **1,009** o ddilynwyr Facebook.

 Cyrhaeddiad Twitter o **691,395** a **1,562** o ddilynwyr Twitter.

(Cyrhaeddiad yw nifer y bobl a oedd wedi gweld postiau, ymgysylltu â phostiadau, clicio ar bostiadau, rannu postiau, gwneud sylw arnynt neu hoffi'r postiau.)


 **Ymweliadau gan Weinidogion** Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru â phrosiectau gan gynnwys Pentre Awel, Ardal Forol Doc Penfro a Champysau.

 Presenoldeb mewn **12 digwyddiad** gan gynnwys Introbiz, Sioe Fusnes Cymru, 4theRegion a Chynhadledd Ynni Môr Cymru.

 Cymryd rhan mewn **2 gyfweiliad sain** i gefnogi'r cais am Borthladd Rhydd Celtaidd a Ford Gron Busnes a'r Economi.

 Diweddarau **gwefan** y Fargen Ddinesig gyda'r straeon newyddion diweddaraf



 **Gweithio mewn partneriaeth** â chysylltiadau cyfathrebu allweddol mewn sefydliadau partner ac ym Margeinion Twf eraill yng Nghymru.


 **Cofnod Cerrig Milltir Allweddol**


 **Llyfryn Adolygiad Blynyddol** o Gerrig Milltir Allweddol ar draws pob bargaen twf


 **Cynhyrchu Asedau Marchnata** gan gynnwys ail-argraffu llyfryn


Ymgysylltu a Busnesau


Mae llawer o raglenni a phrosiectau yn ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid yn y sector preifat wrth i'r ddarpariaeth ddatblygu'n gyflym. Mae hyn wedi arwain at dderbyn cyfraniad ariannol sylweddol o'r sector preifat, gan gynnwys:


 Buddsoddiad cyflenwr Seilwaith Digidol o **£14.5m** yn y rhanbarth ar gyfer 2021-22


 **Buddsoddiad o £13.9m** wedi'i sicrhau ar gyfer Ardal Forol Doc Penfro drwy Borthladd Aberdaugleddau

 **77** o brentisiaethau, gwerth **£500k;** a **£400k** o gyfraniad gan y sector preifat ar gyfer prosiectau pilot yn y Rhaglen Sgiliau a Thalentau.

 Dathlodd Arena Abertawe ei blwyddyn gyntaf o weithredu a chafwyd cyfraniad o **£1m** gan weithredwyr ATG.

 Mae Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer wedi ysgogi buddsoddiad o tua **£1.4m** ar gyfer cartrefi newydd ac ôl-ffitio gan weithio gyda'r sector preifat

 Creodd Cronfa Datblygu Eiddo Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel **lawer iawn o ddiddordeb** gan ddatblygwyr y sector preifat ac roedd mwy o geisiadau nag y gallai ddarparu ar eu cyfer.



Cyfraniad Ardal Forol Doc Penfro:

- Penodi BAM Nuttall yn brif contractwr ar gyfer y llithrfa, dros £3.8m o wariant gyda chontractwyr lleol ar ddeunyddiau, offer, llafur ac isgontractwyr.
- Mae Walters Group wedi gwario £3.1m pellach ar elfen adfer tir y contract gydag is-gontractwyr lleol.
- Mae R&M Williams, y prif contractwr sy'n adnewyddu Rhandai'r Awyrendai hanesyddol, wedi gwario tua £1.7-£2m gyda chyflenwyr lleol.


- Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn parhau i ymgysylltu â sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau fel Sefydliad y Cyfarwyddwyr, a grwpiau busnes rhanbarthol gan gynnwys Clwb Busnes Bae Abertawe, clwb Busnes SA1 a'r sefydliad rhwydweithio rhanbarthol 4theRegion. Mae ymgysylltu hefyd yn parhau gyda Cwmpas, i hyrwyddo'r trydydd sector a menter gymdeithasol.

Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi gwasanaethu cannoedd o ymholiadau gan fusnesau sydd â diddordeb drwy gydol 2022-23, sy'n cael eu dilyn a'u rhannu â phrosiectau a rhanddeiliaid fel y bo'n briodol.

“ Mae Bargaen Ddinesig Bae Abertawe yn parhau i fod yn ffocws ar gyfer cydweithio sy'n cefnogi cyfleoedd busnes lleol yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Mae'r gyfres o brosiectau sy'n gysylltiedig â strategaethau buddsoddi yn sicrhau o fod o gymorth o ran y gwaith parhaus i ffurfio mentrau cyhoeddus-preifat yng Nghlwb Busnes SA1.

Lawrence Bailey ar ran Clwb Busnes SA1

 BDDBA@sirgar.gov.uk

  @SBCityDeal

 bargenddinesigbaeabertawe.cymru



Partneriaid Busnes

Mae'r Fargen Ddinesig yn parhau i weithio mewn partneriaeth â llawer o gwmnïau sector preifat ar draws amrywiaeth o sectorau i gyflawni amcanion y Portffolio.





Gweithgareddau allweddol ar gyfer Ebrill 2023 - Mawrth 2024

Chwarter 1

Sgiliau a Thalentau: Sefydlu fforwm ieuencid i roi cyfleoedd i bobl ifanc gael llais sy'n llywio cyfeiriad datblygiadau sgiliau.

Seilwaith Digidol: Cwblhau'r gwaith o recriwtio adnoddau Hyrwyddwyr Digidol yr Awdurdod Lleol.

Cartrefi yn Orsafoedd Pwer (HAPS): Lansio'r Gronfa Cymhellion Ariannol (FIF) i gymell Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs), Awdurdodau Lleol a datblygwyr a landlordiaid y Sector Preifat i osod technoleg mewn cartrefi i'w gwneud yn lanach, yn wyrddach ac yn fwy effeithlon.

Pentre Awel: Datblygu prosesau mapio er mwyn sicrhau y gwneir y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer gweithio ar draws ffiniau partneriaid. Ymarfer mapio i nodi anghenion/darparwyr sgiliau a bylchau a nodwyd.

Campysau: Ymchwilio i gyfleoedd buddsoddi a mapio rhanddeiliaid.

Yr Egin: Gweithio gydag adnoddau creadigol a digidol mewnol ac apwyntiadau ymgynghori allanol i ddatblygu'r wybodaeth sydd ei hangen i lywio hysbysiad rheoli newid manylach ac achos busnes wedi'i ddiweddarau.

Ardal Ddigidol Abertawe a'r Glannau:

- 71/71 Ffordd y Brenin: Lansio ymgyrch farchnata.
- Matrics Arloesi: Y contractwyr Kier yn dechrau ar y safle a datblygu cais 5G gyda'r Prosiect Seilwaith.

Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel:

- Canolfan Ddiwydiannol Pontio o Garbon De Cymru: Cyhoeddi'r contractwr llwyddiannus i adeiladu cyfleuster Canolfan Ddiwydiannol Pontio o Garbon De Cymru glannau'r harbwr a dechrau'r cam dylunio 12 mis.

- Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch: Arolwg ymgysylltu cyn y farchnad gyda diwydiannau lleol a rhanddeiliaid.
- Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe: Seremoni agoriadol swyddogol
- Prosiect Monitro Ansawdd Aer: Ricardo i barhau â'r gwaith o Sicrhau Ansawdd/Rheoli Ansawdd y rhwydwaith
- Cronfa Datblygu Eiddo: Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Cam 2
- Diweddarau Achos Busnes Portffolio Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel ac Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch gwell.
- Cerbyd Allyriadau Isel (LEV): Sefydlu Gweithgor Seilwaith. Grŵp aml-randdeiliad i nodi a mynd i'r afael â gwahanol heriau ar draws yr unedau busnes.
- Rhaglen Ysgogiad Hydrogen (HSP): Llofnodi Cytundeb Cyllido Prifysgol De Cymru.

Ardal Forol Doc Penfro:

- Seilwaith Doc Penfro: Cwblhau ochr ddwyreiniol y llithrfa ym Mhorthladd Penfro a newid drosodd y gweithrediadau byw o'r gorllewin i'r dwyrain. Gwaith dymchwel yr ochr orllewinol yn dechrau.
- Ardal Profi Ynni'r Môr: Treialon tynnu i gael eu cynnal yn Nyfrffordd Aberdaugleddau ar gyfer Tyrbin Llanw RRES.
- Canolfan Ragoriaeth Peirianeg Ynni Morol: Cwblhau Monitro a Gwerthuso Adroddiad ar gyfer WEFO a chyfarfod cyntaf Grŵp Gorchwyl a Gorffen PCCled ar gyfer Cynnig Sgiliau a Thalent Porthladd Rhydd Celtaidd.
- Parth Arddangos Sir Benfro: Cwblhau Cronfa Datblygiad Rhanbarthol yr Undeb Ewropeaidd Gweithgareddau

Chwarter 2

Sgiliau a Thalentau: Mae prosiectau peilot pellach yn symud i'r cam cyflawni, gan gynnwys uwchsgilio staff mewn Prentisiaethau Profiad Defnyddiwr a bydd y rhain yn cael eu cyflwyno ar gyfer Medi 23.

Seilwaith Digidol: Gosod archeb ar gyfer seilwaith ffibr llawn i asedau a lleoliadau'r sector cyhoeddus yn rhanbarthol.

Cartrefi yn Orsafoedd Pwer (HAPS): Cytuno ar ddyraniadau'r Gronfa Cymhellion Ariannol a chyhoeddi cytundebau cyllido.

Pentre Awel: Cadarnhau cytundebau les, cwblhau arfarniad opsiynau ar gyfer gweithgareddau/prosiectau awyr agored a chwblhau darpariaeth sgiliau addysg a hyfforddiant gyda sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

Campysau: Gwelliannau i'r gwasanaeth ac adolygiad o'r effaith ar gleifion.

Yr Egin: Diweddarau achos busnes a chyflwyno cais am reoli newid.

Ardal Ddigidol Abertawe a'r Glannau:

- 71/71 Ffordd y Brenin: Penodi Rheoli Adeiladau
- Matrics Arloesi: Digwyddiad cychwyn ffurfiol. Dyluniad mewnol, gosodion dodrefn a pheynnau Offer a Sain Gweledol wedi'u cwblhau. Materion cyfreithiol tenantiaid yn symud ymlaen.
- Rhodfa Arloesi: Newid Model Busnes a gweithdai Atodlen Adeiladau a gweithdai datrysiadau eiddo yn dechrau.

Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel:

- Cronfa Datblygu Eiddo: Asesu a dyfarnu'r ceisiadau llwyddiannus ar gyfer y gronfa PDF.
- Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch: Arolwg ymgysylltu cyn y farchnad gyda diwydiannau a busnesau lleol a darparwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach.
- Rhaglen Ysgogiad Hydrogen: Comisiynu electroleiddiwr i gynhyrchu Hydrogen
- Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe: Gweithgaredd parhaus i hyrwyddo'r ganolfan a sicrhau tenantiaid newydd
- Cerbyd Allyriadau Isel: Pob awdurdod lleol i gyfarfod a thrafod dull rhanbarthol

Ardal Forol Doc Penfro:

- Seilwaith Doc Penfro: Angorfa a chomisiynu pontynau cychod gwaith newydd a chwblhau'r gwaith o adeiladu Randai'r Awyrendai.
- Ardal Profi Ynni'r Môr: Cymryd rhan yn 10fed Cynhadledd PRIMaRE, sy'n darparu fforwm ar gyfer cyfnewid yr ymchwil a'r datblygiadau diweddaraf a meithrin cydweithrediadau ym maes Morol. Ynni Adnewyddadwy.
- Canolfan Ragoriaeth Peirianeg Ynni Morol: Cwblhau gweithrediadau a ariennir gan WEFO gan ddilyn â gweithgaredd Y Gronfa Waddol Dechrau cyflwyno Rhaglen Fit 4 Offshore Renewables carfan De Cymru.
- Parth Arddangos Sir Benfro: Diweddarau ac alinio Cynllun Busnes Ardal Forol Doc Penfro i rownd prydlesu masnachol Ystâd y Goron a Dyluniad Rhwydwaith Cyfannol y Gweithredwr Systemau Trydan.



Gweithgareddau allweddol ar gyfer Ebrill 2023 - Mawrth 2024

Chwarter 3

Sgiliau a Thalentau: Mae cynllunio ar y gweill gyda rhanddeiliaid i gyflwyno prosiect profiad gwaith rhanbarthol.

Seilwaith Digidol: Cynnal asesiad o effaith buddion ar gyfer 2022-23. Alinio buddsoddiad gwledig y rhaglen i Brosiect Gigabit a dull Llywodraeth Cymru o yrru band eang sy'n gallu trosglwyddo ar gyfradd gigabit i adeiladau anodd iawn eu cyrraedd yn y rhanbarth.

Cartrefi yn Orsafoedd Pwer (HAPS): Lansio'r Gronfa Cadwyn Gyflenwi (SCF) sydd i gefnogi gweithgareddau a fydd yn arwain at ddatblygu cadwyn gyflenwi ranbarthol yn llwyddiannus wrth gynhyrchu, cyrchu, gosod, gweithredu, rheoli a chynnal technolegau adnewyddadwy.

Pentre Awel: Cwblhau cynllunio prosiectau a strwythur gweithredol ar gyfer yr elfennau byw â chymorth ym Mharth 2 a 3.

Campysau: Sefydlu Canolfan Arloesi Sefydliad Gwyddorau Bywyd yn Ysbyty Treforys.

Yr Egin: Proses gymeradwyo Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar gyfer yr achos busnes wedi'i ddiweddarau a hysbysiad rheoli newid.

Ardal Ddigidol Abertawe a'r Glannau:

- 71/71 Ffordd y Brenin: Dechrau gwaith ar y man cyhoeddus allanol.
- Matrics Arloesi: Digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr - Gweithredwr Caffi. Bydd canlyniad cais 5G gyda'r Prosiect Seilwaith Digidol yn hysbys.
- Rhodfa Arloesi: Rheoli Newid yn symud ymlaen i broses gymeradwyo'r Fargen Ddinesig.

Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel:

- Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch: Cyflwyno a chymeradwyo Achos Busnes Amlinellol sy'n ymgorffori canolfan ragoriaeth Sgiliau Sero Net. Contract i'w hysbysebu ar gyfer proses ddylunio ac adeiladu 2 gam.
- Rhaglen Ysgogiad Hydrogen: Edrych ar newid cerbydau fflyd am gerbydau cyfatebol sy'n cael eu pweru gan hydrogen.

Ardal Forol Doc Penfro:

- Seilwaith Doc Penfro: BAM Nuttall i gwblhau llithrfa fawr iawn, cychod gwaith, a throsglwyddo i Borthladd Aberdaugleddau (MHPA)
- Ardal Profi Ynni'r Môr: Cymryd rhan mewn Gweithdy 10fed Pen-blwydd Rhyngwladol WaTERS sy'n ysgogi cydweithredu a throsglwyddo gwybodaeth rhwng canolfannau profi a rhanbarthau byd-eang
- Canolfan Ragoriaeth Peirianeg Ynni Morol: Dechrau cyflwyno Rhaglen Fit4OR carfan Gogledd Cymru.



Chwarter 4

Sgiliau a Thalentau: Adolygiad Baromedr gyda ffocws ar gapasiti addysgol.

Seilwaith Digidol: Lansio Rhwydwaith Arloesi Digidol a 5G, cyfleoedd Rhyngwyd Pethau.

Cartrefi yn Orsafoedd Pwer (HAPS): Digwyddiad i randdeiliaid rannu gwersi a ddysgwyl yn dilyn comisiwn Ysgol Bensaerniaeth Cymru Prifysgol Caerdydd i gynnal monitro technegol cartrefi sydd wedi mabwysiadu'r 'dull Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer'.

Pentre Awel: Parth 1 - ffrâm strwythurol yr adeilad a lloiau wedi'u cwblhau a strwythur gweithredol cyn cwblhau'r adeilad ym mis Hydref 2024.

Campysau: Cyflwyno cais cynllunio i ddatgloi safle ehangach Ysbyty Treforys.

Yr Egin: Dylunio a chaffael datrysiaid cymeradwy ar gyfer Egin cam 2.

Ardal Ddigidol Abertawe a'r Glannau:

- 71/71 Ffordd y Brenin: Cwblhau'r adeilad yn ymarferol a dechrau'r gwaith Gosod.
- Matrics Arloesi: Matrics Arloesi: Gwaith gosod terfynol yn dechrau a gwaith cyfreithiol tenantiaid yn dod i ben
- Rhodfa Arloesi: Cam cynllunio ffurfiol yn dechrau.

Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel:

- Prosiect Monitro Ansawdd Aer: Dadansoddiad o ymarfer casglu data blwyddyn 2
- Canolfan Ddiwydiannol Pontio o Garbon De Cymru: Gorffen y cam dylunio a pharatoi ar gyfer y cam adeiladu
- Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch: Gwerthuso cyflwyniadau tendr a chyhoeddi contractwr llwyddiannus

Ardal Forol Doc Penfro:

- Seilwaith Doc Penfro: Cwblhau pecyn gwaith Adfer Tir a throsglwyddo ardaloedd adeiladu newydd o'r Walters Group i Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau.
- Ardal Profi Ynni'r Môr: Cymryd rhan yng Nghynhadledd Ynni Môr Cymru, y digwyddiad mwyaf sy'n ymroddedig i ynni adnewyddadwy'r môr yn y DU
- Canolfan Ragoriaeth Peirianeg Ynni Morol: Dechrau darparu rhaglen gyntaf Launch Academy yng Nghymru.



Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'n prosiectau cysylltwch â:

Ymholiadau Cyffredinol

BDBA@sirgar.gov.uk

Seilwaith Digidol

Gareth Jones – GarethJones@sirgar.gov.uk

Rhaglen Sgiliau a Thalentau

Sam Cutlan – SCutlan@sirgar.gov.uk

Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer

Oonagh Gavigan – O.Gavigan@npt.gov.uk

Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau

Huw Mowbray – huw.mowbray@swansea.gov.uk

Arena Abertawe

Lisa Mart – LisaMart@theambassador.com

Yr Egin

Geraint Flowers – G.Flowers@uwtsd.ac.uk

Canolfan S4C

Carys Ifan – Carys.Ifan@uwtsd.ac.uk

Pentre Awel

Sharon Burford – SBurford@sirgar.gov.uk

Campysau

Clare Henson - c.m.henson@swansea.ac.uk

Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel

Brett Suddell - b.suddell@npt.gov.uk

Canolfan Ragoriaeth a Pheirianeg Ynni Morol

Paul Ellsmore - Paul.Ellsmore@ore.catapult.org.uk

Ardal Profi Ynni'r Môr

Tom Hill – Tom.Hill@marineenergywales.co.uk

Parth Arddangos Sir Benfro

Tim James – tim.james@celticseapower.co.uk

Porthladd Aberdaugleddau

Steven Edwards – Stephen.Edwards@mhpa.co.uk



bargenddinesigbaeabertawe.cymru



BDBA@sirgar.gov.uk